



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Rhif: WG48585**

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Diwygio Caffael yn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru

Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r ffordd mae gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r GIG yn cael eu caffael yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **27 Tachwedd 2023**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn: **23 Chwefror 2024**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

**OGL** © Hawlfraint y Goron 2023

## Trosolwg

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am safbwyntiau ar y cynigion i newid y ffordd mae gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r GIG yn cael eu caffael yng Nghymru.

## Sut mae ymateb

Cyflwynwch eich ymatebion erbyn **23 Chwefror 2024**, drwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- defnyddio ein ffurflen ymateb ar-lein
- llwytho ein ffurflen ymateb i lawr, ei llenwi a'i hanfon dros e-bost at:  
[ffurflencaffaelgofaliechyd@llyw.cymru](mailto:ffurflencaffaelgofaliechyd@llyw.cymru)
- llwytho ein ffurflen ymateb i lawr, ei llenwi a'i phostio at:

Diwygio caffael gofal iechyd  
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Diwygio caffael gofal iechyd  
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost:

[ffurflencaffaelgofaliechyd@llyw.cymru](mailto:ffurflencaffaelgofaliechyd@llyw.cymru)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## **Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)**

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a thros unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn, ac a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â sut byddant yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthyl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau pellach. Mewn ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y bydd trydydd parti achrededig yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghorol). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu gyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gallai Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael eu cadw am dair blynedd fan bellaf.

### **Eich hawliau**

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- i gludo data (mewn amgylchiadau penodol)

- i roi cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan reoliad GDPR y DU, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ  
e-bost:  
[dataprotectionofficer@gov.wales](mailto:dataprotectionofficer@gov.wales)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk>

## Cynnwys

<b>Rhagair y Gweinidog</b> .....	6
<b>Pennod 1 – Pam rydym yn ymgynghori?</b> .....	7
<b>Pennod 2 – Y sefyllfa a’r rheswm dros newid</b> .....	7
<b>Pennod 3 – Cwmpas y cynigion a chwestiynau’r ymgynghoriad</b> .....	12
<b>A - Cwmpas cyffredinol gwasanaethau gofal iechyd a’u gweithrediad</b> .....	12
<b>B - Meini prawf allweddol a meini prawf dethol sylfaenol</b> .....	15
<b>C - Caffael Cymysg</b> .....	19
<b>D – Prosesau Caffael</b> .....	22
<b>E - Addasu contractau yn ystod eu cyfnod</b> .....	25
<b>F - Trothwy 'newid sylweddol'</b> .....	27
<b>G - Adolygu penderfyniadau o dan y drefn gaffael</b> .....	30
<b>H – Tryloywder, monitro a chyhoeddi gwybodaeth</b> .....	33
<b>I – Cyfnodau Segur</b> .....	38
<b>J - Gwrthdaro Rhwng Buddiannau</b> .....	42
<b>K - Terfynu Contractau</b> .....	43
<b>L - Cytundebau Fframwaith</b> .....	44
<b>M - Dyfarniadau neu addasiadau brys</b> .....	45
<b>N - Rhoi’r gorau i gamau caffael neu ailadrodd y camau hynny</b> .....	47
<b>O - Eithriadau</b> .....	48
<b>P - Gofal Sylfaenol</b> .....	50
<b>Q - Trefniadau pontio, cyflwyno a gweithredu</b> .....	51
<b>R - Cwestiynau cyffredinol</b> .....	52
<b>Pennod 4 – Crynodeb o gwestiynau’r ymgynghoriad</b> .....	55
<b>Atodiad A - Crynodeb o ymateb llywodraeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr: ymgynghoriad atodol</b> .....	66

## **Rhagair y Gweinidog**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â datblygu rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd a ddarperir ar ran y GIG yng Nghymru.

Bydd y rheoliadau arfaethedig a'r canllawiau statudol yn cael eu gwneud o dan y Bil Caffael Gwasanaeth Iechyd (Cymru) a gyflwynais yn y Senedd ym mis Chwefror. Os daw'r Bil yn Ddeddf, bydd yn rhoi'r pwerau angenrheidiol i Weinidogion Cymru ddiwygio'r ffordd y mae rhai gwasanaethau iechyd y GIG yn cael eu caffael yng Nghymru. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i ymateb i newidiadau sydd wedi cael eu cyflwyno gan 'y Gyfundrefn Dethol Darparwyr' (PSR) gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

O dan PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd gan y GIG ac awdurdodau lleol yn Lloegr yr hyblygrwydd i gaffael a threfnu rhai gwasanaethau iechyd mewn ffordd a fydd yn annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth mwy sefydlog.

Hoffwn sicrhau bod gennym hefyd y gallu i elwa o arferion caffael mwy hyblyg wrth ddod o hyd i wasanaethau iechyd yng Nghymru. Bydd darpariaethau Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) a rheoliadau yn y dyfodol yn ceisio gwneud hynny'n union; gan ddarparu opsiwn i sicrhau tegwch ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd rhwng Cymru a Lloegr.

Rwyf wedi dweud drwy gydol y broses graffu ar y Bil yn y Senedd y byddwn, lle bo hynny'n briodol, yn ceisio cyd-fynd â'r cynigion o dan PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr, ond dim ond pan fydd mesurau o'r fath yn diwallu anghenion Cymru yn gyntaf ac yn bennaf, ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd, ein ffyrdd o weithio ac mewn ffordd sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i ddinasyddion Cymru.

Felly, prif bwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich barn ar egwyddorion gweithredol trefn gaffael newydd i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Bydd yr adborth a roddwch yn ein galluogi i siapio ein ffordd o feddwl a llywio'r gwaith o ddatblygu'r rheoliadau sydd ar y gweill a'r canllawiau statudol cysylltiedig a fydd yn sail i weithredu trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 23 Chwefror 2024, ac ar ôl hynny byddwn yn ystyried ac yn pwysu a mesur yr adborth a gafwyd yn llawn. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Rhagwelir y bydd y rheoliadau a'r canllawiau yn cael eu cyhoeddi yn ystod haf 2024.

Rwyf yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'n fawr eich barn ar y cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon. Edrychaf ymlaen at glywed beth sydd gennych i'w ddweud ac rwy'n eich annog i gymryd rhan yn y broses a chyflwyno eich safbwyntiau.

**Eluned Morgan AS**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Pennod 1 – Pam rydym yn ymgynghori?

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar y newidiadau arfaethedig i'r ffordd mae'r GIG ac awdurdodau lleol yn caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.
2. Bydd y newidiadau sy'n rhan o Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU yn diwygio'r ffordd mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn caffael nwyddau a gwasanaethau o dan y rheoliadau caffael cyfredol<sup>1</sup>.
3. Mae newidiadau hefyd yn cael eu cynnig i'r ffordd caiff gwasanaethau gofal iechyd eu caffael yn Lloegr o dan Gyfundrefn Dethol Darparwyr (PSR) arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
4. Mewn ymateb i'r newidiadau uchod i gaffael cyhoeddus, mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)<sup>2</sup>, sydd yng nghram craffu 4 y Senedd ar hyn o bryd, yn ceisio darparu llwyfan deddfwriaethol priodol i greu trefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd. Bydd y Bil yn diwygio Bil Caffael Llywodraeth y DU i alluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau'r Bil hwnnw mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd, er mwyn gallu gwneud darpariaeth amgen.
5. Os bydd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn cael Cydsyniad Brenhinol, bydd y rheoliadau a wneir yn y dyfodol yn unol â'r pwerau yn y Bil hwnnw yn nodi manylion gweithredol y drefn newydd arfaethedig ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Bydd canllawiau statudol yn ategu hyn.
6. **Nod yr ymarferiad ymgynghori hwn yw gofyn am safbwyntiau ar egwyddorion gweithredol y drefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ac a ddylai'r drefn, lle bo hynny'n briodol, geisio cyd-fynd â'r cynigion a nodir yn PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr, ynteu a ddylent fod yn wahanol.**
7. **Bydd adborth rhanddeiliaid o'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio ac i siapio elfennau gweithredol y drefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru a sut bydd y darpariaethau hynny'n cael eu rhoi ar waith mewn rheoliadau yn y dyfodol.**

## Pennod 2 – Y sefyllfa a'r rheswm dros newid

### Cefndir

8. Ar hyn o bryd, mae ystod o Gyfarwyddbau'r Undeb Ewropeaidd (UE) sy'n nodi fframwaith cyfreithiol yr UE ar gyfer caffael cyhoeddus. Mae'r Gyfarwyddbau UE hyn wedi cael eu rhoi ar waith yng nghyfraith y DU drwy reoliadau sy'n llywodraethu caffael yn y sector cyhoeddus; y prif reoliadau sydd ar waith ar hyn o bryd yw Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ('PCR 2015'). Mae PCR 2015 yn nodi'r rheolau, ac yn pennu trothwyon ariannol, sy'n mynnu bod rhai prosesau caffael yn cael eu dilyn a gofynion cyfreithiol cysylltiedig eraill.

<sup>1</sup> Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 O.S. 2015/102, Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 O.S. 2016/274, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2015 O.S. 2016/273, a Rheoliadau Contractau Amddiffyn a Diogelwch 2011 O.S. 2011/1848.

<sup>2</sup> [Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd \(Cymru\) \(senedd.cymru\)](#)

9. Mae gofynion trefn PCR 2015 yn berthnasol i gontractau sy'n bodloni gofynion y rheoliadau hynny yn unig, gan gynnwys trothwyon a nodir yn Rheoliadau PCR 2015, ac mae'r trothwyon yn amrywio o ran gwerth contractau nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Felly, mae PCR 2015 yn creu fframwaith cyfreithiol, fel y nodir yn y rheoliadau, sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod pob contract cyhoeddus dros y trothwyon ariannol sydd wedi'u nodi yn cael ei ddyfarnu'n dryloyw, heb wahaniaethu, yn ogystal â sicrhau bod pob darpar gyflenwr yn cael ei drin yn gyfartal.
10. Felly, rhaid caffael cyfleoedd tendro i gyflenwi gwasanaethau iechyd annibynnol yng Nghymru yn unol â'r PCR 2015 sydd mewn grym a Datganiad Polisi Caffael Cymru. Mae hyn yn mynnu bod yr holl ofynion sy'n uwch na'r trothwy yn cael eu hysbysebu a'u dyfarnu'n briodol yn unol ag egwyddorion sy'n mynnu bod y canlynol yn cael eu defnyddio:
- peidio â gwahaniaethu,
  - trin yn gyfartal,
  - tryloywder,
  - cydnabyddiaeth gilyddol,
  - cymesuredd.
11. Mae PCR 2015 yn mynnu bod y gystadleuaeth yn cael ei chynnal yn erbyn un o'r pum gweithdrefn ragnodedig sy'n ymwneud â chystadleuaeth. Mae yna hefyd fathau penodol o hysbysiadau y mae'n rhaid eu dilyn wrth hysbysebu a dyfarnu contract, drwy ddefnyddio gwasanaethau megis Gwerthwchi Gymru. Mae'r rheoliadau hefyd yn pennu terfynau amser pan fydd yn rhaid i gystadleuaeth fod yn 'fyw' ac yn 'hygyrch' i gynigwyr gyflwyno tendr (hy mae'r weithdrefn agored yn dweud 35 diwrnod, ond yn cael ei chwtdogi i 30 diwrnod os caniateir tendrau electronig). Mae'n rhaid i 'awdurdodau perthnasol' hefyd gael meini prawf cymhwyso a dethol/dyfarnu penodol er mwyn gwerthuso pob cynnig.

## **Newidiadau i dirwedd caffael cyhoeddus y DU**

12. Ar ôl penderfyniad y DU i adael yr UE mae cynigion i newid y ffordd mae cyrff cyhoeddus yn caffael nwyddau a gwasanaethau ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cyflwyno trefn caffael cyhoeddus newydd drwy ei Deddf Caffael 2023, a fydd yn diddymu PCR 2015 ac yn diwygio'r ffordd mae cyrff cyhoeddus yn caffael nwyddau a gwasanaethau yn y DU.
13. Ar wahân i hyn, mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu'r PSR i newid y ffordd y bydd gwasanaethau gofal iechyd<sup>3</sup> yn cael eu caffael yn Lloegr o ganlyniad i ddarpariaethau yn Neddf Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU 2022. Mae'r Ddeddf hon yn diwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 ac yn golygu bod modd tynnu caffael gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr o gwmpas y rheolau caffael sy'n berthnasol ar hyn o bryd (fel y nodir yn PCR 2015), a llunio cyfres newydd o reolau caffael a fydd yn disodli PCR 2015, a Deddf Caffael 2023, yn ei thro. Bwriedir mai'r gyfres newydd o reolau caffael fydd y PSR.

---

<sup>3</sup> Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn diffinio gwasanaethau iechyd fel "gwasanaethau gofal iechyd"



14. Bydd PSR newydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn berthnasol i gaffael y GIG ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr yn unig, ac mae'n deillio o'r awydd i gael gwared ar unrhyw dendro cystadleuol diangen, chwalu'r rhwystrau sy'n atal integreiddio gofal a hyrwyddo cydweithio sefydlog ar gyfer gwasanaethau iechyd annibynnol yn Lloegr.
15. Nod cyffredinol y PSR yw symud oddi wrth y disgwyliad o gystadleuaeth am wasanaethau gofal iechyd ym mhob sefyllfa ac at system o gydweithio a phartneriaeth, sy'n helpu i uno gwasanaethau ar draws y system iechyd drwyddi draw. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r farn y bydd y PSR yn rhoi'r hyblygrwydd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn GIG Lloegr a sefydliadau llywodraeth leol yn Lloegr i drefnu gwasanaethau gofal iechyd sy'n hyrwyddo buddiannau cleifion a'r boblogaeth yn eu hardaloedd yn y ffordd orau, yn ogystal ag ystyried y gwerth am arian cyhoeddus. Mae hyn yn golygu y gallai'r rheini sy'n caffael ac yn comisiynu gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr symud oddi wrth sefyllfa o gystadleuaeth fel mater o drefn, fel sy'n digwydd o dan drefn PCR 2015 ar hyn o bryd, ac i sefyllfa sy'n rhoi amrywiaeth o 'brosesau gwneud penderfyniadau' i'r rheini sy'n caffael ac yn comisiynu er mwyn dyfarnu contractau o dan drefniadau dyfarnu uniongyrchol neu drwy gystadleuaeth.
16. Mae manylion gweithredol y PSR wedi cael eu nodi mewn rheoliadau gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoliadau PSR) a gafodd eu gosod gerbron y Senedd ar 19 Hydref 2023<sup>4</sup>. Mae canllawiau statudol i gyd-fynd â'r Rheoliadau PSR, sy'n nodi elfennau gweithredol y drefn gaffael newydd arfaethedig, wedi cael eu cynhyrchu gan GIG Lloegr a'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r rheoliadau arfaethedig<sup>5</sup>. Bwriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw y bydd y Rheoliadau PSR yn dod i rym ar 1 Ionawr 2024.

### **Y sefyllfa yn y dyfodol o ran caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru**

17. Fel y nodir uchod, dim ond ar gyfer caffael gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr y bydd Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn berthnasol. Mae natur gwasanaethau gofal iechyd yn golygu y gallai newidiadau i drefniadau caffael yn Lloegr arwain at oblygiadau posibl o ran caffael gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r GIG yng Nghymru, gan arwain at rai canlyniadau ymarferol anfwriadol wrth gaffael a chomisiynu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol, megis:
- a. Llurgunio'r llwyfan caffael gwasanaethau iechyd cyfochrog presennol rhwng Cymru a Lloegr;
  - b. Cyfyngu ar y gallu i gomisiynu gwasanaethau iechyd ar sail gydweithredol / gyd-gydymffurfiol rhwng GIG Lloegr a GIG Cymru, a manteision cysylltiedig arbedion maint o safbwynt ariannol ac o ran adnoddau;
  - c. Cyfyngu ar awydd cyflenwyr i gyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru oherwydd eu bod yn gorfod cymryd rhan mewn cyfundrefnau caffael gwahanol a mynd drwy ymarferion tendro cystadleuol, a allai gynyddu costau a phwysau ar adnoddau i GIG Cymru wrth gaffael a denu cyflenwyr o ansawdd uchel yn y dyfodol.

<sup>4</sup> [The Health Care Services \(Provider Selection Regime\) Regulations 2023 \(legislation.gov.uk\)](https://www.legislation.gov.uk)

<sup>5</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime \(PSR\) draft statutory guidance](#)

18. Gallai'r diwygiadau caffael cyhoeddus arfaethedig a ddisgrifiwyd yn gynharach yn y ddogfen hon a'r risg bosibl gysylltiedig a ddisgrifir uchod beri risgiau a heriau penodol o ran caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Yng ngoleuni hyn, cydnabu Gweinidogion Cymru y cyfle i ddiwygio'r drefn gaffael bresennol ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru a datblygu trefn i'r dyfodol a fyddai'n ceisio lliniaru'r risgiau a'r heriau a nodwyd uchod a diwallu anghenion gwasanaethau iechyd yng Nghymru.
19. Ym mis Chwefror 2023, cyflwynwyd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn y Senedd i geisio pwerau sylfaenol i Weinidogion Cymru ddod â rheoliadau gerbron a fydd yn cyflwyno trefn gaffael bwrpasol a fydd yn berthnasol i gaffael gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r GIG yng Nghymru. Bydd y cam hwn yn ceisio 'sicrhau tegwch ym maes caffael' rhwng Cymru a Lloegr o ran cyrchu gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r GIG, drwy drefniadau caffael cydradd, pan fydd hynny'n briodol.
20. Bydd darpariaethau'r Bil yn rhoi'r gallu i sefydliadau fel y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru i roi arferion caffael mwy hyblyg ar waith wrth ddod o hyd i wasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Bydd y dull hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Rhaglen Lywodraethu; yn datblygu trefn caffael gwasanaethau iechyd sy'n diwallu anghenion 'Cymru Iachach' ac yn darparu dull gweithredu cyson o ran trefniadau caffael gwasanaethau iechyd rhwng Cymru a Lloegr.
21. Bydd hyn, yn ei dro, yn gyfle i lunio trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd a allai fod yn gyson, os dymunir, â'r PSR arfaethedig yn Lloegr.

### **Manylion gweithredol y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr**

22. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol bellach wedi cyhoeddi'r Rheoliadau PSR<sup>6</sup> drafft sy'n sail i'r PSR arfaethedig ar gyfer Lloegr ynghyd â'r canllawiau statudol i gyd-fynd â'r rheoliadau sy'n cynnwys manylion gweithredol PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
23. Mae'r Rheoliadau PSR, y canllawiau statudol a'r dogfennau ategol wedi cael eu hadolygu i asesu eu perthnasedd posibl i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac maent wedi cael eu hystyried fel a ganlyn:
  - a. Sut gallai egwyddorion gweithredol y PSR o bosibl fod yn berthnasol i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
  - b. P'un a fydd cyd-fynd â'r cynigion yn y PSR, neu wyro oddi wrthynt, yn bodloni nodau ac amcanion 'Cymru Iachach' yn ogystal ag ymrwymïadau ehangach Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru
  - c. Pa elfennau o'r PSR y byddem yn ceisio eu hefelychu o ran caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru
  - d. Pa elfennau o'r PSR y byddem yn dewis peidio â'u hefelychu o ran caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru, a gwneud darpariaethau eraill pan fo hynny'n briodol.

---

<sup>6</sup> [The Health Care Services \(Provider Selection Regime\) Regulations 2023 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

## Fformat yr ymgynghoriad hwn

24. Mae crynodeb o gwmpas prif fanylion gweithredol PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ynghyd â'r dull arfaethedig o ymdrin â newidiadau i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru, a chwestiynau ymgynghori perthnasol wedi'u nodi isod ym [Mhennod 3](#).
25. Mae'r wybodaeth ym [Mhennod 3](#) wedi'i fframio mewn modd sy'n:
- Rhoi crynodeb cefndir i randdeiliaid o'r darpariaethau yn y Rheoliadau PSR;
  - Darparu ein dehongliad cychwynnol o'r darpariaethau a nodir yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau;
  - Darparu manylion am ba mor berthnasol ac addas yw'r darpariaethau yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac a ddylai Gweinidogion Cymru geisio cyd-fynd â'r darpariaethau hynny neu wyro oddi wrthynt wrth ddatblygu trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru.
26. Mae GIG Lloegr a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cynnal ymarferion ymgynghori mewn perthynas â sefydlu trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr. Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd GIG Lloegr ei ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y PSR yn Lloegr<sup>7</sup>. Ym mis Chwefror 2022, cynhaliodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymgynghoriad atodol a chyhoeddodd ei hymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn ym mis Gorffennaf 2023<sup>8</sup>.
27. Mae trosolwg o ymgynghoriad atodol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i chrynodeb o'r ymatebion i adborth gan randdeiliaid wedi cael ei ddarparu yn [Atodiad A](#). Darperir hyn i gynnig trosolwg i randdeiliaid o'r ymateb i'r PSR yn Lloegr ac i dynnu sylw at yr ystyriaethau a godwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i ymgynghoriad atodol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hefyd yn rhoi cyd-destun i'r rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch prosesau gweithredol PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr.
28. Ni ddylid trin y dehongliad o'r Rheoliadau PSR sydd yn y ddogfen ymgynghori hon fel datganiad awdurdodol o'r gyfraith. Gwaith y Llysoedd fydd dehongli Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Deddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU. Y safbwyntiau a nodir yn y ddogfen hon felly yw ein dealltwriaeth gyfredol ni o sut y gallai'r Rheoliadau PSR a'r Ddeddf Caffael weithredu a dim ond i helpu rhanddeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad hwn y cânt eu cynnig. Dylai rhanddeiliaid gyfeirio at y fersiynau llawn a chyhoeddedig o Reoliadau PSR 2023<sup>9</sup>, y canllawiau statudol cysylltiedig<sup>10</sup> a Deddf Caffael 2023<sup>11</sup>, ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori hon.

---

<sup>7</sup> [NHS England » NHS Provider Selection Regime: Consultation on proposals](#)

<sup>8</sup> [Provider Selection Regime: supplementary consultation on the detail of proposals for regulations - government response - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

<sup>9</sup> [The Health Care Services \(Provider Selection Regime\) Regulations 2023 \(legislation.gov.uk\)](#)

<sup>10</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime \(PSR\) draft statutory guidance](#)

<sup>11</sup> [Procurement Act 2023 \(legislation.gov.uk\)](#)

## Pennod 3 – Cwmpas y cynigion a chwestiynau'r ymgynghoriad

### A - Cwmpas cyffredinol gwasanaethau gofal iechyd a'u gweithrediad

- **Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Drwy weithredu PSR mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dileu'r broses o gaffael gwasanaethau gofal iechyd o gwmpas PCR 2015.

Bwriad newid o'r fath yw sicrhau mai dim ond pan fydd tendro'n ychwanegu gwerth y bydd yn digwydd, drwy roi disgrisiwn i gomisiynwyr ddewis naill ai dyfarnu contract yn uniongyrchol i ddarparwr, neu gynnal ymarferiad tendro cystadleuol. Yn y naill achos neu'r llall, y nod yw sicrhau gofal o ansawdd da, canlyniadau da i gleifion, a gwerth am arian wrth gynllunio gwasanaethau gofal iechyd.

Bwriad PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw rhoi proses benderfynu hyblyg a chymesur i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ar ddewis darparwyr i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i'r cyhoedd. Nodau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda'r PSR yw ei gwneud yn haws integreiddio gwasanaethau a gwella cydweithio, a chael gwared ar yr anhyblygrwydd sy'n gysylltiedig â'r rheolau caffael presennol, a'r fiwrocratiaeth a'r gost gysylltiol.

- **Gweithrediad:**

<b>A - Cwmpas cyffredinol gwasanaethau iechyd a'u gweithrediad</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
<p><b>Gweithredu PSR:</b> Gwasanaethau gofal iechyd perthnasol a drefnir gan gyrrff y GIG a llywodraeth leol (a ddiffinnir fel 'awdurdod perthnasol' o dan adran 12ZB(7) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006).</p> <p>Sef:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>(a) awdurdod cyfun.</li><li>(b) bwrdd gofal integredig.</li><li>(c) awdurdod lleol yn Lloegr.</li><li>(d) GIG Lloegr.</li><li>(e) ymddiriedolaeth sefydledig GIG.</li><li>(f) ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 25</li></ul>	<p><b>Gweithrediad yng Nghymru:</b> Rydym yn cynnig y bydd y drefn newydd arfaethedig ar gyfer caffael 'gwasanaethau iechyd' yng Nghymru yn berthnasol i 'awdurdod perthnasol' fel y'i diffinnir yn adran 10A(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (sydd i'w mewnosod gan adran 3 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)). Diffinnir awdurdodau perthnasol fel:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>○ cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru (awdurdodau Lleol).</li><li>○ bwrdd iechyd lleol a sefydlwyd o dan adran 11.</li><li>○ ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 18.</li><li>○ awdurdod iechyd arbennig a sefydlwyd o dan adran 22.</li></ul>

### Cwmpas PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn diffinio gwasanaethau o fewn cwmpas y PSR fel gwasanaethau gofal iechyd sy'n dod o dan un neu ragor o'r 'codau Geirfa Caffael Gyffredin' (codau CPV) a nodir yn y tabl yn Atodlen 1<sup>12</sup> Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn disgwyl i 'awdurdod perthnasol' ddefnyddio'r cod(au) CPV mwyaf perthnasol ar gyfer y gwasanaeth gofal iechyd y maent yn ei gaffael. Os nad oes cod manylach ar gael, disgwylir i 'awdurdod perthnasol' ddefnyddio'r cod troswaol cyffredinol ar gyfer 'gwasanaethau gofal iechyd'. Os oes cod CPV mwy manwl ar gael, ond heb ei gynnwys yn y rhestr CPV, yna ystyrir bod y gwasanaeth y tu allan i gwmpas y PSR.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnig bod y canlynol y tu allan i gwmpas y PSR oni bai eu bod wedi'u cynnwys fel '**caffael cymysg**'\*:

- nwyddau (ee meddyginiaethau, offer meddygol)
- gwasanaethau gofal cymdeithasol
- gwasanaethau fferyllol hanfodol ac uwch wedi'u trefnu o dan delerau'r Fframwaith Contractau Fferylliaeth Gymunedol
- gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â gofal iechyd neu wasanaethau cyfagos ag iechyd (ee gwaith cyfalaf, ymgynghoriaeth busnes, arlwyo, gwasanaethau gweinyddol mewn ysbytai, gwasanaethau dillad gwely mewn ysbytai neu ymgyrchoedd marchnata iechyd cyhoeddus) nad ydynt yn darparu gofal iechyd i unigolyn.

\*Diffinnir **caffael cymysg** isod yn Adran **C** y ddogfen ymgynghori hon.

Gallai defnyddio'r drefn gaffael newydd arfaethedig hefyd fod yn berthnasol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd sy'n cael eu trefnu ar hyn o bryd rhwng 'GIG i'r GIG' neu 'GIG i Awdurdodau Lleol' yng Nghymru o dan gytundebau lefel gwasanaeth neu gytundebau tymor hir.

### Cwmpas arfaethedig yng Nghymru:

Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn darparu pwerau i roi trefn newydd ar waith yng Nghymru i gaffael gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru a nwyddau a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny (gweler caffael cymysg isod).

Rydym yn cynnig y dylai'r rheoliadau ar gyfer trefn gaffael newydd i Gymru yn y dyfodol gynnwys rhestr o godau Geirfa Caffael Gyffredin (codau CPV) yn y rheoliadau sy'n diffinio'r prif bwnc, 'gwasanaethau iechyd' sydd o fewn cwmpas trefn gaffael y gwasanaeth iechyd. Bydd cwmpas y prif bwnc gwasanaethau iechyd a rhestr o godau CPV perthnasol yn cael eu cwblhau yn dilyn adborth gan randdeiliaid o'r broses ymgynghori hon.

**Dull arfaethedig i ymdrin â 'chaffael cymysg' yng Nghymru:** Mae ein dull arfaethedig i ymdrin â 'chaffael cymysg' fel rhan o'r drefn newydd arfaethedig i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru wedi'i ddiffinio isod – gweler **Adran C** isod.

**Trothwyon ar gyfer gweithredu:** Byddwn yn ystyried a ddylai'r drefn newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru gyd-fynd â dull gweithredu PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

<sup>12</sup> [The Health Care Services \(Provider Selection Regime\) Regulations 2023 \(legislation.gov.uk\)](https://www.legislation.gov.uk)

**Trothwy ar gyfer gweithredu:** Bydd PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn berthnasol i bob contract, ni waeth beth yw ei werth.

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C1</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r drefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru gynnwys rhestr o wasanaethau iechyd fel y'u diffinnir gan godau CPV?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch fanylion</p>
<b>C2</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y rhestr o godau a gyflwynwyd yn Rheoliadau PSR drafft yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynrychioli'n gywir ehangder a chwmpas diffinio gwasanaethau iechyd sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd neu y gellid eu caffael yn y dyfodol yng Nghymru?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion.</p>
<b>C3</b>	<p>A oes unrhyw wasanaethau iechyd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr o godau a gyflwynwyd yn Rheoliadau PSR drafft yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, lle mai gwasanaethau iechyd yw'r prif bwnc, sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd neu a fydd yn cael eu</p>

	darparu yn y dyfodol yng Nghymru a ddylai, yn eich barn chi, fod o fewn cwmpas trefn gaffael newydd arfaethedig i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru? Os felly, rhowch fanylion (ac os yw'n berthnasol, y codau CPV perthnasol)?
<b>C4</b>	A oes unrhyw godau CPV sydd wedi'u cynnwys ar restr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol nad ydynt yn berthnasol i gaffael a darparu gwasanaeth iechyd yng Nghymru ac felly na ddylid eu hefelychu mewn trefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? Os felly, rhowch fanylion.
<b>C5</b>	A oes enghreifftiau o wasanaethau iechyd sy'n cael eu caffael yng Nghymru ar hyn o bryd nad ydynt yn cael eu diffinio gan god CPV? Os felly, nodwch y gwasanaethau hyn.
<b>C6</b>	Mae rhestr codau CPV PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys rhai gwasanaethau gofal sylfaenol ac felly'n cael eu cofnodi o dan y drefn PSR. A oes unrhyw godau CPV sydd wedi'u cynnwys ar restr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol nad ydynt yn berthnasol i'r gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru? A oes enghreifftiau o wasanaethau gofal sylfaenol sy'n cael eu caffael yng Nghymru ar hyn o bryd nad ydynt yn cael eu diffinio gan god CPV yn rhestr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol?

## B - Meini prawf allweddol a meini prawf dethol sylfaenol

- Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi sefydlu set o feini prawf sylfaenol y gall awdurdodau perthnasol fynnu bod darparwyr yn eu bodloni. Mae hyn yn cynnwys addasrwydd i fynd ar drywydd gweithgaredd penodol, statws economaidd ac ariannol; a gallu technegol a phroffesiynol. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi sefydlu set o feini prawf allweddol y mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch dethol darparwyr o dan y drefn. Crynhoir y meini prawf allweddol fel a ganlyn:

<b>Ansawdd ac arloesedd</b>	Sicrhau bod cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn ceisio sicrhau'r ansawdd gorau posibl o ran gwasanaethau a pherfformiad darparwyr, arloesi a gwella gwasanaethau, a mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
<b>Gwerth</b>	Sicrhau bod cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y gwerth a gynigir gan wasanaeth drwy ddewis yr opsiwn â'r cyfuniad gorau o fanteision i unigolion o ran canlyniadau ac i'r boblogaeth o ran gwell iechyd a lles, ac yn dod â gwerth i drethdalwyr drwy leihau baich afiechyd dros oes y trefniant ac, o'r herwydd, lleihau'r gost.
<b>Integreiddio, cydweithio a chynaliadwyedd gwasanaethau</b>	Sicrhau bod cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn ceisio integreiddio gwasanaethau i gleifion i'r eithaf er mwyn gwella canlyniadau, bod cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn rhoi ystyriaeth briodol i sut y gall eu penderfyniadau effeithio ar sefydlogrwydd a chynaliadwyedd gwasanaethau dros amser ar draws darparwyr, a

	bod eu penderfyniadau'n gyson â chynlluniau lleol a chenedlaethol ynghylch integreiddio gofal ac uno gwasanaethau ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
<b>Gwella mynediad a lleihau anghydraddoldebau iechyd</b>	Sicrhau bod cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn ceisio sicrhau bod yr ystod orau o ddewisiadau ar gael i gleifion, a bod gwasanaethau a thriniaethau'n cael eu cynnig a'u bod ar gael i bob unigolyn sydd eu hangen, gan ganolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.
<b>Gwerth Cymdeithasol</b>	Sicrhau bod cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn ceisio sicrhau bod y trefniadau yn creu'r gwerth cymdeithasol mwyaf posibl, gan gydnabod y rôl y mae'r gwasanaeth iechyd yn ei chwarae mewn cymunedau lleol, gan gynnwys ei rôl arwain o ran cyflawni ôl troed carbon sero net.

• **Gweithrediad:**

<b>B - Meini prawf allweddol a meini prawf dethol sylfaenol</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
<p><b>Meini Prawf Sylfaenol:</b></p> <p>Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi na chaiff awdurdod perthnasol ddyfarnu contract i ddarparwr nad yw'n bodloni'r meini prawf dethol sylfaenol (na dod â chytundeb fframwaith i ben â darparwr o'r fath). Mae'r meini prawf dethol sylfaenol y mae angen i ddarparwyr eu bodloni wedi'u cynnwys yn Atodlen 16 y Rheoliadau PSR. Dim ond gofynion a all fod yn berthnasol i'r canlynol y caiff 'awdurdod perthnasol' eu gosod ar ddarparwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• addasrwydd i ymgymryd â gweithgaredd penodol.</li> <li>• statws economaidd ac ariannol.</li> <li>• gallu technegol a phroffesiynol.</li> </ul> <p>Rhaid i'r meini prawf dethol sylfaenol gael eu cymhwyso gan 'awdurdodau perthnasol' wrth ddefnyddio Proses Dyfarniad Uniongyrchol C, Proses y Darparwr Mwyaf Addas, neu'r Broses Gystadleuol. Nid yw'n ofynnol i awdurdodau perthnasol</p>	<p><b>Meini Prawf Sylfaenol:</b></p> <p>Rydym yn cynnig y dylai trefn newydd ar gyfer Cymru yn y dyfodol geisio cyd-fynd â'r meini prawf dethol sylfaenol sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ond gallem hefyd gynnwys meini prawf ychwanegol o ran cyflawni nodau ac amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru (ee caffael cymdeithasol gyfrifol).</p> <p><b>Meini prawf allweddol</b></p> <p>Rydym yn cynnig bod manylion am feini prawf allweddol y mae'n rhaid i 'awdurdod perthnasol' eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn cael eu cynnwys mewn rheoliadau yn y dyfodol.</p> <p>Bydd angen i'r meini prawf allweddol gyfrannu at nodau ac amcanion strategaeth 'Cymru Iachach'<sup>13</sup> ac ymrwymadau cyffredinol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru<sup>14</sup>, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>15</sup> yn ogystal â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023<sup>16</sup>.</p>

<sup>13</sup> [Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#)

<sup>14</sup> [Rhaglen Lywodraethu | LLYW.CYMRU](#)

<sup>15</sup> [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: yr hanfodion \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

<sup>16</sup> [Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\) | LLYW.CYMRU](#)



<p>gymhwyso'r meini prawf dethol sylfaenol wrth ddilyn prosesau dyfarnu uniongyrchol A neu B.</p> <p>Er enghraifft, mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi bod angen i 'awdurdod perthnasol' sicrhau bod gan gyflenwyr lefelau priodol o yswiriant indemniad risg proffesiynol a throthwyon trosiant gofynnol.</p> <p><b>Meini prawf allweddol</b> Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi <b>meini prawf allweddol</b> y mae'n rhaid i 'awdurdod perthnasol' eu hystyried wrth ddewis darparwr gwasanaeth gofal iechyd gan ddefnyddio Proses Dyfarniad Uniongyrchol C, y Broses Darparwr Mwyaf Addas neu'r Broses Gystadleuol (gweler isod). Nid yw'r meini prawf yn berthnasol i Broses Dyfarniad Uniongyrchol A na Phroses Dyfarniad Uniongyrchol B oherwydd nad yw'r 'awdurdod perthnasol' yn dewis rhwng darparwyr yn y prosesau hynny.</p> <p>Mae'r Meini Prawf Allweddol yn cynnwys egwyddorion ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ansawdd ac arloesedd</li> <li>• Gwerth</li> <li>• Integreiddio, cydweithio a chynaliadwyedd gwasanaethau</li> <li>• Gwella mynediad, lleihau anghydraddoldebau iechyd a hwyluso dewis</li> <li>• Gwerth cymdeithasol</li> </ul>	<p>Bydd meini prawf allweddol yn cael eu datblygu a'u diffinio yn y rheoliadau yn y dyfodol ar gyfer y drefn newydd arfaethedig i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Gallai'r meini prawf gynnwys, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwerth am arian</li> <li>• Ansawdd ac arloesedd</li> <li>• Gwerth cymdeithasol</li> <li>• Gofal iechyd seiliedig ar werth</li> <li>• Lleihau anghydraddoldebau iechyd</li> <li>• Atal/ymyrryd yn gynnar</li> <li>• Iechyd a gofal cydweithredol</li> <li>• Yr economi sylfaenol</li> <li>• Cydweithio a phartneriaeth</li> <li>• Hygyrchedd gwasanaethau</li> </ul>
--	--

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C7</b>	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu yn Atodlen 16 i Adroddiad PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch y meini prawf dethol sylfaenol (hy y gall awdurdod perthnasol osod gofynion cymesur i'w bodloni gan ddarparwyr sydd <b>ond</b> yn ymwneud â'r meini prawf dethol sylfaenol: (a) addasrwydd i fynd ar drywydd gweithgaredd penodol; (b) statws economaidd ac ariannol; ac (c) gallu technegol a phroffesiynol)?

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C8</b>	Ydych chi'n credu y dylid cynnwys <b>meini prawf sylfaenol</b> ychwanegol mewn trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol? Os felly, rhowch fanylion.
<b>C9</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r <b>meini prawf allweddol</b> a gynigir i'w cynnwys yn y drefn newydd i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C10</b>	A oes unrhyw <b>feini prawf allweddol</b> eraill y credwch y mae angen i 'awdurdod perthnasol' eu hystyried wrth wneud penderfyniadau i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru er mwyn adlewyrchu amcanion polisi ehangach i Gymru? Rhowch fanylion.
<b>C11</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid diffinio <b>meini prawf allweddol</b> mewn rheoliadau yn y dyfodol ar gyfer cyfundrefn gwasanaeth iechyd newydd arfaethedig i Gymru?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>

## C - Caffael Cymysg

- **Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cydnabod pryderon a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghylch eithrio gofal cymdeithasol o gwmpas y PSR, ac na fyddai'r sefyllfa'n helpu i sicrhau mwy o integreiddio a chydweithio ar draws gofal iechyd a gofal cymdeithasol pan fyddai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ceisio trefnu gwasanaeth sy'n cynnwys cymysgedd o wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Er y bydd gwasanaethau gofal cymdeithasol annibynnol yn disgyn y tu allan i gwmpas y PSR, roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dweud eu bod yn deall bod angen trefnu cymysgedd o ofal iechyd a nwyddau a gwasanaethau eraill (yn cynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol) o dan un darparwr ar gyfer rhai pecynnau cymorth. Roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod y gallai rhai prosesau caffael, yn anochel, gynnwys nifer o elfennau, rhai ohonynt yn amlwg o fewn cwmpas eu PSR, ac elfennau eraill sydd o fewn cwmpas y rheoliadau caffael ehangach. Roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi creu 'caffael cymysg' i sicrhau bod cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn gallu defnyddio PSR wrth drefnu gwahanol fathau o wasanaethau gyda'i gilydd o dan un contract mewn rhai amgylchiadau.

Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i fabwysiadu dull tebyg yng Nghymru, bydd hyn yn berthnasol os mai gwasanaethau iechyd fydd 'prif bwnc' y broses gaffael a bod unrhyw nwyddau neu wasanaethau eraill yn gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny.

- **Gweithrediad:**

<b>C - Caffael Cymysg</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
Dywedodd yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei dogfen ymgynghori fod ei hagwedd at 'gaffael cymysg' yn ceisio sicrhau bod 'awdurdod perthnasol' yn gallu defnyddio'r PSR wrth drefnu gwahanol fathau o wasanaethau a nwyddau, gyda'i gilydd o dan un contract, mewn amgylchiadau lle mae'n hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth gofal iechyd, neu oherwydd ei fod yn amlwg er budd cleifion, y trethdalwr, a'r boblogaeth i wneud hynny. <sup>17</sup>  At ddibenion y Rheoliadau PSR, ystyr 'caffael cymysg' yw caffael:	Rydym yn cynnig y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru gyd-fynd â dull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran ymdrin â chaffael cymysg yn rheoliadau Cymru yn y dyfodol. Bydd hyn yn ceisio galluogi sefyllfa lle mae darpariaethau'r drefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn cyd-fynd â darpariaethau Rheoliadau Contractau Cyhoeddus presennol 2015 (PCR 2015); a'r darpariaethau yn Neddf Caffael 2023 sydd ar y gweill a rheoliadau yn y dyfodol.

<sup>17</sup> [Provider Selection Regime: supplementary consultation on the detail of proposals for regulations - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/provider-selection-regime-supplementary-consultation-on-the-detail-of-proposals-for-regulations)

(a) gwasanaethau gofal iechyd perthnasol at ddibenion y gwasanaeth iechyd yn Lloegr;

(b) nwyddau neu wasanaethau eraill sy'n cael eu caffael ynghyd â'r gwasanaethau gofal iechyd hynny,

os bodlonir y ddau faen prawf canlynol:

(a) prif bwnc y broses gaffael yw gwasanaethau gofal iechyd perthnasol at ddibenion y gwasanaeth iechyd yn Lloegr;

(b) mae'r 'awdurdod perthnasol' o'r farn na ellid yn rhesymol gyflenwi'r nwyddau neu'r gwasanaethau eraill o dan gontract ar wahân ('rhesymol wahanadwy').

At y dibenion hyn:

(a) pennir prif bwnc y contract yn ôl pa un yw'r uchaf - ai gwerth oes amcangyfrifedig y gwasanaethau gofal iechyd perthnasol neu werth oes amcangyfrifedig y nwyddau neu'r gwasanaethau eraill;

(b) ni all 'awdurdod perthnasol' benderfynu na allai'r nwyddau neu'r gwasanaethau eraill gael eu cyflenwi'n rhesymol o dan gontract ar wahân ond lle mae'r 'awdurdod perthnasol' o'r farn y byddai caffael y gwasanaethau gofal iechyd perthnasol a'r nwyddau a'r gwasanaethau eraill ar wahân yn cael effaith andwyol sylweddol ar allu'r 'awdurdod perthnasol' i weithredu yn unol â'r egwyddorion caffael a nodwyd, neu y byddai'n debygol o wneud hynny.

Bydd contractau ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau cymysg nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o 'gaffael cymysg' fel y'i diffinnir yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau o

Bydd angen i gontractau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau cymysg gan 'awdurdod perthnasol' yng Nghymru, sydd y tu allan i gwmpas y drefn ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru, ddilyn PCR presennol 2015<sup>18</sup> a'r newidiadau arfaethedig i reolau caffael cyhoeddus sy'n cael eu cyflwyno o dan Ddeddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig nad yw gwasanaethau gofal cymdeithasol annibynnol yn dod o fewn cwmpas y PSR; **dim ond pan fyddant yn rhan o 'gaffael cymysg' hy fel nwyddau neu wasanaethau eraill y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cynnwys.**

<sup>18</sup> [The Public Contracts Regulations 2015 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

dan y drefn caffael cyhoeddus bresennol – Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (PCR 2015) a newidiadau i reolau caffael cyhoeddus sy'n cael eu cyflwyno o dan Ddeddf Caffael Llywodraeth y DU 2023.

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C12</b>	Ar wahân i wasanaethau gofal cymdeithasol, pa fathau eraill o nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu caffael ar hyn o bryd, neu a allai gael eu caffael yn y dyfodol o fewn cwrpas gwasanaethau iechyd gan 'awdurdod perthnasol' i ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru – hy caffael cymysg? Rhowch enghreifftiau (ac, os yw'n bosibl, godau CPV).
<b>C13</b>	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r diffiniad trothwy 'prif bwnc' ar gyfer caffael cymysg a'i berthnasedd i drefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> Rhowch ragor o fanylion?
<b>C14</b>	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â gweithredu'r trothwy 'rhesymol wahanadwy' yng Nghymru? . <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> Rhowch ragor o fanylion?
<b>C15</b>	Wrth ystyried sut y mae gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol annibynnol yn cael eu caffael yng Nghymru ar hyn o bryd, a ydych yn rhagweld unrhyw broblemau neu fanteision wrth greu dulliau o'r fath ar gyfer caffael cymysg yng Nghymru? Rhowch fanylion.
<b>C16</b>	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai'r 'prif bwnc' yw gwasanaethau iechyd <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau penodol â'r dull hwn o weithredu? Os felly, rhowch ragor o fanylion.</p>
<b>C17</b>	I ba raddau ydych chi'n credu y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac unrhyw drefniadau cyllideb cyfun? Rhowch fanylion.

## D – Prosesau Caffael

- **Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Bwriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw y bydd angen defnyddio'r PSR fel rhan o'r broses gomisiynu pryd bynnag y bydd contractau ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yn dod i ben, yn newid yn sylweddol, neu'n cael eu dyfarnu am y tro cyntaf. Y cam cyntaf y bydd angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ei gymryd wrth weithredu'r PSR yw nodi pa rai o'r prosesau canlynol fydd yn cael eu dilyn:

**Proses Dyfarniad Uniongyrchol A a Phroses Dyfarniad Uniongyrchol B:** parhau â'r trefniadau presennol: lle mai'r darparwr presennol yw'r unig ddarparwr hyfyw oherwydd natur y gwasanaeth. Mae **Proses Dyfarniad Uniongyrchol A** yn golygu nad oes dewis realistig arall yn lle'r darparwyr presennol; gyda **Phroses Dyfarniad Uniongyrchol B**, mae ystod o ddarparwyr achrededig amgen eisoes ar gael i gleifion (yn seiliedig ar 'Ddewis y Claf' GIG Lloegr).

**Proses Dyfarniad Uniongyrchol C:** parhau â'r trefniadau presennol: Defnyddir y broses hon pan asesir bod y darparwr presennol yn gwneud gwaith da (mewn perthynas â'r meini prawf allweddol ar gyfer gwneud penderfyniadau), ei fod yn debygol o barhau i wneud hynny, ac nad yw'r gwasanaeth yn newid.

**Proses y Darparwr Mwyaf Addas:** pan fydd y penderfynwr am ddefnyddio darparwr newydd neu ar gyfer trefniadau newydd/wedi'u diwygio'n sylweddol: Ar gyfer amgylchiadau lle mae angen i'r trefniadau presennol newid yn sylweddol; lle mae gwasanaeth newydd yn cael ei drefnu; lle nad yw'r deiliad yn gallu darparu'r gwasanaeth mwyach a/neu nad yw'n dymuno darparu'r gwasanaeth mwyach; neu lle mae'r corff penderfynu eisiau defnyddio darparwr gwahanol a bod y corff penderfynu o'r farn y gall ddod o hyd i ddarparwr addas heb gynnal proses gaffael gystadleuol

**Y Broses Gystadleuol:** ar gyfer sefyllfaoedd lle na all y corff sy'n gwneud penderfyniadau enwi un darparwr neu grŵp o ddarparwyr sy'n fwyaf addas heb gynnal proses gystadleuol neu ei fod eisiau profi'r farchnad.

• **Gweithrediad:**

**D - Prosesau ar gyfer dyfarnu contract**

**PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr**

Mae Rhan 2 Rheoliadau PSR<sup>19</sup> yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi nifer o 'amgylchiadau gwneud penderfyniadau' sydd i'w cymhwyso pan fydd contractau ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd un ai'n dod i ben, yn newid yn sylweddol, neu'n cael eu dyfarnu am y tro cyntaf.

Sef:

- **'Proses Dyfarniad Uniongyrchol A'** – ar gyfer amgylchiadau lle mae yna ddarparwr presennol, mae'r 'awdurdod perthnasol' yn fodlon, oherwydd natur y gwasanaeth, mai dim ond y darparwr presennol a all ei ddarparu ac nad yw'r broses gaffael yn cwblhau cytundeb fframwaith. Gellir gwneud dyfarniad uniongyrchol gan nad oes darparwr arall realistig oherwydd natur y gwasanaeth.
- **'Proses Dyfarniad Uniongyrchol B'** – ar gyfer amgylchiadau lle mae'r contract yn ymwneud â gwasanaethau lle cynigir dewis darparwr i glaf ('Dewis y Claf'), lle nad yw nifer y darparwyr wedi'i gyfyngu gan yr awdurdod perthnasol, bydd yr 'awdurdod perthnasol' yn cynnig contractau i bob darparwr sy'n bodloni'r gofynion, mae gan yr awdurdod perthnasol drefniadau ar waith i alluogi darparwyr i fynegi diddordeb mewn darparu gwasanaethau o'r fath ac nid yw'r broses gaffael yn cwblhau cytundeb fframwaith. Mae hyn yn caniatáu i'r 'awdurdod perthnasol' gyfarwyddo dyfarniad ar gyfer y gwasanaethau hyn gan fod cystadleuaeth eisoes yn cael ei chyflawni pan fydd claf yn dewis ei ddarparwr.

**Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru**

Rydym yn cynnig y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol geisio cyd-fynd â dull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran amgylchiadau gwneud penderfyniadau:

- **'Proses Dyfarniad Uniongyrchol A'**
- **'Proses Dyfarniad Uniongyrchol C'**
- **'Proses y Darparwr Mwyaf Addas'**
- **'Y Broses Gystadleuol'**

Bydd y dull hwn yn galluogi'r drefn o gaffael gwasanaethau iechyd i weithredu mewn ffordd 'deg' rhwng Cymru a Lloegr; gan ddarparu'r un hyblygrwydd i 'awdurdodau perthnasol' yng Nghymru ag a ddarperir i 'awdurdodau perthnasol' yn Lloegr wrth wneud penderfyniadau ar gaffael gwasanaethau iechyd.

Nid ydym yn cynnig cysoni â **'Phroses Dyfarniad Uniongyrchol B'** mewn perthynas â 'dewis y claf' o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Caffael, Dewis y Claf a Chystadleuaeth) (Rhif 2) 2013, gan nad oes darpariaeth reoleiddio gyfatebol yng Nghymru.

<sup>19</sup> [The Health Care Services \(Provider Selection Regime\) Regulations 2023 \(legislation.gov.uk\)](https://www.legislation.gov.uk)

- **‘Proses Dyfarniad Uniongyrchol C’** – ar gyfer amgylchiadau lle mae contract presennol i fod i ddod i ben, mae'r ‘awdurdod perthnasol’ yn cynnig contract newydd gyda'r darparwr presennol ac mae o'r farn bod y darparwr presennol yn bodloni'r contract presennol ac y bydd yn debygol o fodloni'r contract arfaethedig i safon ddigonol, ac nad yw'r “trothwy newid sylweddol” fel y'i nodir yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i fodloni, ac nad yw'r broses gaffael yn cwblhau cytundeb fframwaith. Mae'r broses hon yn rhoi hyblygrwydd i ‘awdurdodau perthnasol’ ddyfarnu contract heb gystadleuaeth lle nad yw'n debygol y bydd dewis darparwr newydd yn rhoi gwerth drwyddi draw.
- **‘Proses y Darparwr Mwyaf Addas’** ar gyfer amgylchiadau pan fo'r ‘awdurdod perthnasol’ o'r farn, gan ystyried darparwyr tebygol a'r holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael i'r ‘awdurdod perthnasol’ ar y pryd, ei fod yn debygol o allu adnabod y darparwr mwyaf addas, ac nad yw'r caffael yn cwblhau cytundeb fframwaith. Bwriad y broses hon yw rhoi hyblygrwydd i ‘awdurdodau perthnasol’ ddyfarnu contract heb gystadleuaeth oherwydd bod amgylchiadau a chyd-destun y gwasanaethau y mae'r contract yn berthnasol iddynt yn golygu bod darparwr mwyaf addas y gellir ei adnabod. Gallai hyn fod oherwydd, er enghraifft, nad oes ond un darparwr addas a all chwarae rhan ganolog mewn system darparu gofal iechyd integredig ehangach.
- **‘Y Broses Gystadleuol’** – rhaid i'r ‘awdurdod perthnasol’ ddilyn y ‘Broses Gystadleuol’ mewn amgylchiadau lle na ellir defnyddio'r prosesau eraill uchod. Dylid nodi mai dim ond o dan y Broses Gystadleuol y gellir cwblhau 'cytundebau fframwaith’.

Mae manylion pob proses gaffael gan gynnwys y camau angenrheidiol a'r gofynion gwybodaeth ar gyfer pob proses benderfynu ar gael yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (gweler Rheoliadau 7-11)<sup>20</sup>.

<sup>20</sup> [The Health Care Services \(Provider Selection Regime\) Regulations 2023 \(legislation.gov.uk\)](https://www.legislation.gov.uk)



Cwestiynau:	
<b>C18</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn newydd arfaethedig i gaffael gwasanaethau iechyd ar gyfer Cymru gysoni'r 'amgylchiadau gwneud penderfyniadau' â'r rheini a nodir yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (ac eithrio Proses Dyfarniad Uniongyrchol B – 'Dewis y Claf')?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C19</b>	<p>O ran caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, a oes gennych unrhyw farn am unrhyw amgylchiadau eraill lle dylai proses wahanol fod ar waith yng nghyswllt cyfundrefn caffael gwasanaeth iechyd newydd yng Nghymru yn y dyfodol? Rhowch esboniad.</p>

## E - Addasu contractau yn ystod eu cyfnod

- **Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn darparu ychydig o amgylchiadau lle gellir addasu contract heb fod angen proses ddyfarnu newydd. Os na fydd yr addasiad yn bodloni'r amgylchiadau cyfyngedig a nodir yn y Rheoliad, ni fyddai'r 'awdurdod perthnasol' yn gallu parhau â'r contract gyda'r darparwr presennol.

### Gweithrediad:

E - Addasu contractau	
PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr	Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru
<p><b>Addasu contractau:</b> Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi y gellir addasu contractau a chytundebau fframwaith yn ystod eu cyfnod heb fod angen ymarfer caffael newydd o dan rai amgylchiadau.</p>	<p>Rydym yn cynnig y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol geisio cyd-fynd â dull yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ymdrin ag addasiadau i gontractau yn ystod eu cyfnod fel y'i nodwyd yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.</p>

Caniateir addasu contract yn ystod ei gyfnod o dan y Rheoliadau PSR heb fod angen ymarfer caffael newydd yn yr amgylchiadau canlynol:

- **Ar gyfer Proses Dyfarniad Uniongyrchol A a Phroses Dyfarniad Uniongyrchol B** lle nad yw'r addasiad yn newid cymeriad y contract yn sylweddol
- **Ar gyfer Proses Dyfarniad Uniongyrchol C, proses y Darparwr Mwyaf Addas, neu'r Broses Gystadleuol**, caniateir addasiadau yn yr achosion canlynol:
  - y darperir yn glir ac yn ddiamwys ar gyfer yr addasiad yn nogfennau'r contract neu'r cytundeb fframwaith gwreiddiol,
  - nid yw'r addasiad ond yn newid yn hunaniaeth y darparwr oherwydd olyniaeth i sefyllfa'r darparwr yn dilyn newidiadau corfforaethol gan gynnwys trosglwyddo, uno, caffael, neu ansolfedd ac mae'r awdurdod perthnasol yn fodlon bod y darparwr yn bodloni'r meini prawf dethol sylfaenol,
  - bod yr addasiad yn cael ei wneud mewn ymateb i ffactorau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod perthnasol a'r darparwr gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
    - newidiadau yn nifer y cleifion neu'r defnyddwyr gwasanaeth
    - newidiadau mewn prisiau yn unol â fformiwla y darperir ar ei chyfer yn nogfennau'r contract,ac nad yw'r addasiad yn gwneud y contract yn sylweddol wahanol o ran ei natur.
  - mae'r addasiad i'w briodoli i benderfyniad gan yr awdurdod perthnasol a bodlonir y ddau faen prawf canlynol:
    - nad yw'r addasiad yn gwneud y contract neu'r fframwaith yn sylweddol wahanol o ran ei natur;
    - mae'r newid cronnus yng ngwerth oes y contract neu'r cytundeb fframwaith gwreiddiol ers ymrwymo iddo neu ei gwblhau yn:
      - £500,000 neu lai; neu

Fel y nodwyd yn Adran D uchod, nid ydym yn cynnig cysoni â 'Phroses Dyfarniad Uniongyrchol B' ('Dewis y Claf') mewn perthynas â 'dewis y claf' o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Caffael, Dewis y Claf a Chystadleuaeth) (Rhif 2) 2013, gan nad oes darpariaeth reoleiddio gyfatebol yng Nghymru.

- yn llai na 25% o werth oes y contract neu'r cytundeb fframwaith gwreiddiol pan ymrwymwyd iddo neu y'i cwblhawyd.

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C20</b>	Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn newydd yn y dyfodol ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru geisio cyd-fynd â dull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran addasiadau i gontractau fel y'i nodir yn y Rheoliadau PSR? <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> Rhowch ragor o fanylion?
<b>C21</b>	A oes gennych unrhyw farn ynghylch a ddylid mabwysiadu dull amgen o addasu contractau yng Nghymru? Rhowch fanylion.

## F - Trothwy 'newid sylweddol'

- **Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Os nad yw'n ofynnol i'r 'awdurdod perthnasol' ddilyn Proses Dyfarniad Uniongyrchol A na Proses Dyfarniad Uniongyrchol B, a phan fydd cyfnod contract presennol i fod i ddod i ben ac mae'r 'awdurdod perthnasol' yn cynnig contract newydd yn lle'r contract presennol hwnnw ar ddiwedd ei gyfnod, **nid yw'r trothwy 'newid sylweddol' yn cael ei fodloni** ac mae'r darparwr presennol yn bodloni'r contract presennol a bydd yn debygol o fodloni'r contract arfaethedig i safon ddigonol, gall yr awdurdod perthnasol ddilyn Dyfarniad Uniongyrchol C. Os nad yw'r 'trothwy newid sylweddol' yn cael ei fodloni, bydd angen i'r 'awdurdod perthnasol' naill ai ddefnyddio'r broses Darparwr Mwyaf Addas neu'r broses Gystadleuol.

Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys trothwy diffiniedig (y 'trothwy newid sylweddol') a fydd, ar gyfer gwasanaethau sy'n dod i ddiwedd eu contract, yn gwahaniaethu'n effeithiol rhwng gwasanaethau y gellir eu trosglwyddo a'r rheini sydd angen mynd drwy naill ai'r broses Darparwr Mwyaf Addas neu'r broses Gystadleuol.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r farn bod ei Rheoliadau PSR yn gosod trothwy cadarn wedi'i lunio'n dda ar gyfer yr hyn sy'n golygu newid sylweddol i sicrhau bod y PSR yn cael ei ddefnyddio er budd gorau cleifion, y trethdalwr a'r boblogaeth.

Bydd y trothwy a bennir ar gyfer gwasanaethau sy'n dod i ddiwedd eu contract yn gwahaniaethu'n effeithiol rhwng gwasanaethau y gellir eu trosglwyddo gan ddefnyddio Proses Dyfarniad Uniongyrchol C (pan nad oes angen prosesau Dyfarniad Uniongyrchol A a B) a gwasanaethau y dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau orfod eu cymharu â darparwyr eraill, un ai drwy ddefnyddio'r broses i ganfod y darparwr mwyaf addas neu drwy broses gystadleuol.

- **Gweithrediad:**

<b>F - Trothwy 'newid sylweddol'</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
<p><b>'Newid sylweddol'</b> Mae angen i ddefnydd arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r rheolau ar gyfer defnyddio Proses Dyfarniad Uniongyrchol C, fel y'u disgrifir yn y Rheoliadau PSR, fodloni'r rheolau ynghylch 'newid sylweddol'</p> <p>Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys trothwy diffiniedig (y 'trothwy newid sylweddol') a fydd, ar gyfer gwasanaethau sy'n dod i ddiwedd eu contract, yn gwahaniaethu'n effeithiol rhwng gwasanaethau y gellir eu trosglwyddo (<b>'Proses Dyfarniad Uniongyrchol C'</b>) a gwasanaethau y dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau orfod eu cymharu â darparwyr eraill, un ai drwy ddefnyddio'r broses i ganfod y darparwr mwyaf addas (<b>'Proses y Darparwr Mwyaf Addas'</b>) neu drwy broses dendro gystadleuol (<b>'Y Broses Gystadleuol'</b>).</p> <p><u>Mae'r trothwy newid sylweddol yn cael ei fodloni:</u></p> <p>(a) lle mae'r trefniadau contractio arfaethedig yn sylweddol wahanol o ran eu natur i'r contract presennol pan ymrwymwyd i'r contract presennol hwnnw (ac eithrio pan fo hyn yn</p>	<p>Rydym yn cynnig y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru geisio cyd-fynd â dull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran 'newid sylweddol' yn rheoliadau Cymru yn y dyfodol.</p>

gysylltiedig â newidiadau corfforaethol darparwyr (rheoliad 6 (11) (a)); neu:

(b) Lle mae'r newid mewn ymateb i ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod perthnasol (Rheoliad 6 (12) b) a:

6 (12) (b) (i) lle gellir priodoli newidiadau yn y gwasanaethau gofal iechyd perthnasol y mae'r trefniadau contractio arfaethedig yn ymwneud â hwy (o'u cymharu â'r contract presennol) i benderfyniad gan yr 'awdurdod perthnasol'; a

6 (12) (b) (ii) bod gwerth oes y trefniadau contractio arfaethedig o leiaf £500,000 yn uwch na gwerth oes y contract presennol pan ymrwymwyd i'r contract presennol hwnnw; a

6 (12) (b) (iii) bod gwerth oes y trefniadau contractio arfaethedig o leiaf 25% yn uwch na gwerth oes y contract presennol pan ymrwymwyd i'r contract presennol hwnnw.  
DS. Rhaid bodloni pob un o'r 3 phrawf a nodir yn 6 (12) (b) (i) (ii) a (iii) er mwyn cyrraedd y trothwy newid sylweddol.

Dylid nodi na chaniateir i 'awdurdodau perthnasol' ddefnyddio **Proses Dyfarniad Uniongyrchol C** os bodlonir y trothwy newid sylweddol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r 'awdurdod perthnasol' ddilyn **Proses y Darparwr Mwyaf Addas** neu'r **Broses Gystadleuol**.

Nid yw'r trothwy newid sylweddol yn cael ei fodloni:

Lle mae natur y contract presennol yn sylweddol wahanol o ganlyniad i newid yn hunaniaeth y darparwr oherwydd newidiadau sy'n cynnwys trosglwyddo, uno, caffael neu ansolfedd ac mae'r awdurdod perthnasol wedi'i fodloni bod y darparwr yn bodloni'r meini prawf dethol sylfaenol, neu pan nad yw 6 (12) (b) (ii) a (iii) yn cael eu diwallu ac mae'r newid rhwng y contract presennol a'r contract arfaethedig mewn ymateb i ffactorau allanol fel newid yn nifer y cleifion neu'r

defnyddwyr gwasanaeth neu newid mewn prisiau yn unol â'r fformiwla yn nogfennau'r contract.	
---	--

Cwestiynau:	
<b>C22</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r trothwy arfaethedig ar gyfer 'newid sylweddol' fel y'i nodir yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a pherthnasedd hynny ar gyfer caffael darpariaeth gwasanaethau iechyd yng Nghymru?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C23</b>	<p>Os ydych o'r farn y dylai'r trothwyon newid sylweddol fod yn wahanol yng Nghymru i'r rhai a nodwyd yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, eglurwch pam. Nodwch beth yn eich barn chi fyddai'n drothwy mwy priodol ar gyfer newid sylweddol mewn trefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.</p>

## G - Adolygu penderfyniadau o dan y drefn gaffael

- **Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Nid oedd cwestiynau ymgynghori'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwneud yn benodol â chraffu annibynnol ar benderfyniadau a wnaed o dan y PSR, gan gynnwys hawliau i ddarparwyr sydd am herio cyrff gwneud penderfyniadau. Cafodd y cynigion hyn eu cynnwys yn ymgynghoriad GIG Lloegr<sup>21</sup> ar y PSR yn 2021. Fodd bynnag, yn ystod ymgynghoriad atodol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2022<sup>22</sup>, mynegodd ymatebwyr bryder ynghylch y pwnc hwn (fel sy'n cael ei grynhoi yn **Atodiad A** y ddogfen ymgynghori hon).

Codwyd pryderon ynghylch sicrwydd llywodraethu da, a phryder ynghylch y gofyniad i'r corff sy'n gwneud penderfyniadau adolygu a dyfarnu ar ei benderfyniadau ei hun pan gaiff ei herio gan ddarparwr heb gyfraniad gan gorff annibynnol. O dan PCR 2015, mae heriau'n cael eu cyflwyno drwy'r llysoedd sy'n gallu bod yn rhwystr rhag cydweithio, gan arwain at system wrthwynebol sy'n dibynnu ar gyfreitha i ddatrys anghydfodau. Yn

<sup>21</sup> [NHS England - provider-selection-regime-consultation.pdf \(england.nhs.uk\)](#)

<sup>22</sup> [DHSC - Provider Selection Regime: supplementary consultation on the detail of proposals for regulations - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

y pen draw, bydd opsiwn bob amser yn agored i ddarparwr sy'n ystyried bod y corff sy'n gwneud penderfyniadau wedi gweithredu'n anghyfreithlon i herio penderfyniad drwy adolygiad barnwrol, ond roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod gwerth cyflwyno mwy o annibyniaeth yn y drefn cyn y byddai angen ymglyfreitha i adolygu penderfyniadau a wnaed o dan y PSR.

Felly, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a GIG Lloegr yn bwriadu sefydlu panel a fydd yn cael ei gadeirio gan berson annibynnol a fydd yn gallu edrych ar faterion sy'n ymwneud â'r Rheoliadau PSR a rhoi cyngor arnynt. Bydd hyn yn helpu i sicrhau: bod prosesau caffael yn atebol, yn dryloyw, yn deg ac yn gymesur, gan alluogi pob darparwr i gystadlu am gontractau; ac nad yw darparwyr yn cael eu heithrio'n annheg rhag cynnig gwasanaethau i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Os nad yw darparwr yn fodlon ag ymateb awdurdod perthnasol i sylw a anfonir yn ystod y cyfnod segur (gweler **adran I** isod), gall y darparwr wneud cais i'r panel adolygu PSR annibynnol i ystyried ei sylwadau ymhellach, a bydd y panel yn ystyried a yw'r 'awdurdod perthnasol' wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau PSR. Bydd aelodau panel PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn arbenigwyr annibynnol sy'n gallu adolygu cydymffurfiaid yr 'awdurdod perthnasol' â'r Rheoliadau PSR. Disgwylir y bydd y panel yn ceisio ystyried a rhannu unrhyw ganfyddiadau ac argymhellion gyda'r darparwr a'r 'awdurdod perthnasol' o fewn 25 diwrnod gwaith. Bydd y panel yn rhoi cyngor i'r 'awdurdod perthnasol' ond yn y pen draw mae'r penderfyniad terfynol yn aros gyda'r 'awdurdod perthnasol'.

- **Gweithrediad:**

<b>G - Adolygu penderfyniadau o dan y drefn gaffael</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
<p>Mae Rheoliad 12 PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys darpariaethau ar sut mae darparwyr sy'n cwyno yn cyflwyno sylwadau cychwynnol i 'awdurdod perthnasol' yn dilyn penderfyniad i ddyfarnu contract a bod rhaid i'r awdurdod perthnasol adolygu'r penderfyniad (am ragor o wybodaeth am y cyfnod segur, gweler adran I isod). Mae rheoliad 23 yn darparu y caiff 'awdurdod perthnasol', wrth wneud penderfyniadau yn unol â'r Rheoliadau PSR, geisio neu fel arall, dderbyn cyngor arbenigol annibynnol. Mae'r Rheoliadau PSR yn datgan na fydd hyn yn torri unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd ond ei fod yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiad penodol ar ddatgelu mewn deddfwriaeth arall.</p> <p>Mae cyngor arbenigol annibynnol yn golygu cyngor sy'n ymwneud â chaffael gwasanaethau gofal iechyd perthnasol o dan y Rheoliadau PSR gan berson sydd ag arbenigedd, cymwysterau neu brofiad</p>	<p>Bydd yr angen a'r gallu i sefydlu panel i ddarparu cyngor annibynnol ar benderfyniadau caffael ar gyfer trefn gaffael newydd i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu rheoliadau yn y dyfodol ar gyfer trefn gaffael newydd yng Nghymru.</p>

<p>perthnasol sy'n cael ei ddarparu gan, neu ei gymeradwyo gan, GIG Lloegr neu'r Ysgrifennydd Gwladol.</p> <p>Mae'r canllawiau statudol yn darparu bod GIG Lloegr yn bwriadu sefydlu 'panel adolygu PSR' annibynnol dan gadeiryddiaeth person annibynnol er mwyn cynghori ar benderfyniadau caffael a wneir gan 'awdurdodau perthnasol' o dan y Rheoliadau PSR a chynnig barn ddiuedd/ddiragfarn.</p> <p>Os nad yw'r darparwr yn fodlon ar ymateb 'awdurdod perthnasol' i sylw a anfonwyd yn ystod y cyfnod segur, gall y darparwr ofyn am adolygiad gan y panel adolygu PSR. Caiff y panel ystyried a oedd yr 'awdurdod perthnasol' wedi cydymffurfio â'r rheoliadau a gall roi cyngor i'r 'awdurdod perthnasol' (bydd yn ymdrechu i wneud hynny o fewn 25 diwrnod gwaith) a dylai'r 'awdurdod perthnasol' wedyn wneud penderfyniad pellach ynghylch sut i fwrw ymlaen. Mae'r canllawiau statudol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am sefydlu'r panel adolygu a'r broses a ddilynir.</p> <p>Mae'r manylion llawn wedi'u cynnwys yn y canllawiau statudol PSR a gynhyrchwyd gan GIG Lloegr<sup>23</sup>.</p>	
---	--

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C24</b>	<p>O ystyried y dull arfaethedig y mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i fabwysiadu o ran adolygu penderfyniadau yn ei PSR arfaethedig, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â sefydlu panel annibynnol i roi cyngor ar benderfyniadau caffael wrth weithredu trefn newydd arfaethedig i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul>

<sup>23</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime: draft statutory guidance](#)



	Rhowch ragor o fanylion?
<b>C25</b>	Rhowch fanylion ynghylch sut y gallai panel annibynnol weithredu yng Nghymru yn eich barn chi?
<b>C26</b>	A ydych yn credu y byddai'n fwy addas cael dull gweithredu gwahanol yng Nghymru i'r hyn a nodir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran cyngor annibynnol ar weithredu trefn gaffael newydd i'r gwasanaeth iechyd yn y dyfodol? Os felly, rhowch fanylion.

## H – Tryloywder, monitro a chyhoeddi gwybodaeth

- **Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn credu bod yr egwyddor o dryloywder mewn caffael cyhoeddus yn ganolog i uniondeb ac atebolrwydd y system a'r frwydr yn erbyn llygredd, gan sicrhau bod cyfleoedd yn hygyrch, a bod modd monitro a chraffu ar brosesau a phenderfyniadau. Nod yr Adran o ran trefniadau tryloywder yn y Rheoliadau PSR yw sicrhau bod canlyniadau penderfyniadau a wneir o dan y drefn yn cael eu gwneud yn gyhoeddus a bod craffu digonol yn cael ei wneud i sicrhau bod y drefn yn cael ei dilyn yn ddidwyll. Mae tryloywder yn y system iechyd a gofal yn cael ei gynnal gan ystod ehangach o ddyletswyddau y disgwylir i 'awdurdod perthnasol' eu cynnal. Mae PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer tryloywder i ategu gofynion o'r fath.

Pan fydd corff sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'r amgylchiadau gwneud penderfyniadau sydd yn y Rheoliadau PSR, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gosod gofynion clir ar gamau i sicrhau tryloywder, gan gynnwys cyhoeddi hysbysiadau i'w cyhoeddi gan 'awdurdodau perthnasol'. Mae'r manylion wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau PSR ac yng nghanllawiau statudol PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gynhyrchwyd gan GIG Lloegr<sup>24</sup> ac a nodir yn **Nhablau 1 a 2** isod.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn mynnu bod 'awdurdodau perthnasol' yn monitro eu cydymffurfiad â'r Rheoliadau PSR ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar-lein o ganlyniadau'r gwaith monitro hwnnw, yn ogystal â chyhoeddi crynodeb blynyddol o'i weithgarwch contractio a chadw cofnodion o wybodaeth benodol, gan gynnwys prosesau, penderfyniadau a wneir o dan y PSR, addasiadau i gontractau, a datgan a rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau. Mae manylion y gofynion hyn wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau PSR a chanllawiau statudol PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gynhyrchwyd gan GIG Lloegr<sup>25</sup>.

<sup>24</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime \(PSR\) draft statutory guidance](#)

<sup>25</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime \(PSR\) draft statutory guidance](#)

Tabl 1 – PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Angen hysbysiadau tryloywder ar gyfer dyfarnu contractau o dan y prosesau dewis darparwyr.

	Proses Dyfarniad Uniongyrchol A	Proses Dyfarniad Uniongyrchol B	Proses Dyfarniad Uniongyrchol C	Y broses darparwr mwyaf addas	Proses gystadleuol
<b>Bwriadau clir:</b> Cyhoeddi'r dull arfaethedig ymlaen llaw				✓	
<b>Bwriadau clir:</b> Cyhoeddi hysbysiad am dendr cystadleuol					✓
<b>Cyfleu penderfyniadau:</b> Cyhoeddi'r hysbysiad bwriad i ddyfarnu			✓	✓	✓
<b>Cadarnhau penderfyniadau:</b> Cyhoeddi hysbysiad cadarnhau dyfarniad	✓	✓	✓	✓	✓
<b>Addasu contract:</b> Cyhoeddi hysbysiad am addasiadau i gontractau	✓	✓	✓	✓	✓

**Tabl 2 – PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Angen hysbysiadau tryloywder ar gyfer prosesau'n ymwneud â chytundebau fframwaith.**

	Sefydlu cytundeb fframwaith (yn dilyn y broses gystadleuol)	Contractau seiliedig ar gytundeb fframwaith heb gystadleuaeth	Contractau seiliedig ar gytundeb fframwaith yn dilyn cystadleuaeth
<b>Bwriadau clir:</b> Cyhoeddi hysbysiad am dendr cystadleuol	✓		
<b>Cyfleu penderfyniadau:</b> Cyhoeddi'r hysbysiad bwriad i ddyfarnu	✓		✓
<b>Cadarnhau penderfyniadau:</b> Cyhoeddi hysbysiad cadarnhau dyfarniad	✓	✓	✓
<b>Addasu contract:</b> Cyhoeddi hysbysiad am addasiadau i gontractau	✓	✓	✓

• **Gweithrediad:**

<b>H - Tryloywder a monitro</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoliadau 24-26) yn gwneud darpariaethau ynghylch tryloywder gan gynnwys gofynion cofnodi gwybodaeth, cyhoeddi crynodebau blynyddol a gofynion monitro wrth ddyfarnu contractau i ddarparwyr gwasanaethau gofal iechyd o dan y PSR. Mae hyn yn cynnwys yr angen i adrodd yn rheolaidd a chyhoeddi manylion dyfarnu contractau yn gyhoeddus gyda'r nod o sicrhau bod canlyniadau penderfyniadau'n	Rydym yn cynnig y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru geisio cyd-fynd â dull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran tryloywder drwy ofynion gwybodaeth, crynodebau blynyddol, gofynion monitro a hysbysiadau tryloywder yn rheoliadau Cymru yn y dyfodol.

cael eu gwneud yn gyhoeddus, a bod craffu digonol yn cael ei wneud i sicrhau bod y PSR yn cael ei ddilyn yn briodol.

Mae Rheoliad 7-11 PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn mynnu bod hysbysiadau tryloywder yn cael eu cyhoeddi ac yn nodi amserlenni ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau o'r fath. Mae gofynion cyhoeddi o'r fath wedi'u crynhoi uchod yn Nhablau 1 a 2 ac yn fanwl yng nghanllawiau statudol PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gynhyrchwyd gan GIG Lloegr<sup>26</sup>

Mae **Atodlenni 2 – 15** Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi'r manylion o ran yr wybodaeth y mae angen ei chyhoeddi ar gynnwys hysbysiad ynghylch dull caffael arfaethedig 'awdurdod perthnasol' ymlaen llaw; cyfleu penderfyniad a wnaed; cadarnhau penderfyniad a wnaed neu addasu contract. Mae hysbysiadau'n cynnwys gofynion gwybodaeth ar gyfer pob proses, fel:

- datganiad bod dyfarniad wedi'i wneud.
- teitl a chyfeirnod contract
- enw a chyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif fan busnes y darparwr
- disgrifiad o'r gwasanaethau gofal iechyd perthnasol y mae'r contract yn ymwneud â hwy, gan gynnwys y cod CPV mwyaf perthnasol.
- gwerth oes y contract neu, os nad yw'n hysbys, y symiau sy'n daladwy i'r darparwr o dan y contract.
- rhwng pa ddyddiadau y mae'r contract yn darparu ar gyfer darparu'r gwasanaethau.
- manylion y rhai sy'n penderfynu ar y dyfarniad
- unrhyw wrthdaro a ddatganwyd neu wrthdaro posibl rhwng buddiannau

Bydd y dull hwn yn galluogi caffael yn y gwasanaeth iechyd i weithredu mewn ffordd 'deg' rhwng Cymru a Lloegr a sicrhau bod gan 'awdurdodau perthnasol' yr un lefel o leiaf o atebolrwydd.

<sup>26</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime \(PSR\) draft statutory guidance](#)

<ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth ynghylch sut y rheolwyd unrhyw wrthdaro neu wrthdaro posibl rhwng buddiannau.</li> </ul> <p>Sylwch nad yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr ac mae gwahanol hysbysiadau'n gofyn am wybodaeth ychydig yn wahanol sydd wedi'i nodi'n glir yn yr amserlen berthnasol.</p>	
--	--

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C27</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu o ran tryloywder, monitro a chyhoeddi gwybodaeth ag sydd yn Rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C28</b>	<p>A ydych yn credu bod dull amgen neu fathau eraill o wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i ddangos tryloywder a monitro'r defnydd o drefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? Manylwch ar eich barn.</p>
<b>C29</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd ag amseriad ac amllder adroddiadau ar dryloywder a amlinellwyd uchod ac yn rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C30</b>	<p>A oes gennych chi unrhyw farn ynghylch yr wybodaeth y mae angen ei chyhoeddi yng nghynnwys hysbysiad a bennir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i pherthnasedd i drefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? Manylwch ar eich barn.</p>

<b>C31</b>	A oes gennych chi unrhyw farn ynghylch y gofyniad i 'awdurdodau perthnasol' yng Nghymru gyhoeddi manylion y 'gwneuthurwyr penderfyniadau' fel rhan o'r wybodaeth am ddyfarnu contractau? Manylwch ar eich barn
------------	--

## I – Cyfnodau Segur

- Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi bod angen i 'awdurdodau perthnasol', pan fydd proses gaffael yn cael ei chynnal, gadw at gyfnod segur er mwyn rhoi cyfle i ddarparwyr gyflwyno sylwadau cyn dyfarnu contract o dan 'Broses Dyfarniad Uniongyrchol C', 'Proses y Darparwr Mwyaf Addas' a'r 'Broses Gystadleuol'. Rhaid i awdurdod perthnasol beidio â dyfarnu contract nes y daw'r cyfnod segur i ben. Mae manylion ynghylch pa hysbysiadau sy'n ofynnol cyn dyfarnu contract a dechrau cyfnod segur wedi'u cynnwys yng nghanllawiau statudol PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gynhyrchwyd gan GIG Lloegr<sup>27</sup> ac a nodir yn **Nhablau 3 a 4**:

**Tabl 3 – PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Angen hysbysiadau tryloywder ar gyfer dyfarnu contractau o dan y prosesau dewis darparwyr.**

	Proses Dyfarniad Uniongyrchol A	Proses Dyfarniad Uniongyrchol B	Proses Dyfarniad Uniongyrchol C	Y broses darparwr mwyaf addas	Proses gystadleuol
<b>Cyfleu penderfyniadau:</b> Cyhoeddi'r hysbysiad bwriad i ddyfarnu			✓	✓	✓

**Tabl 4 – PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Angen hysbysiadau tryloywder ar gyfer prosesau'n ymwneud â chytundebau fframwaith.**

	Sefydlu cytundeb fframwaith (yn dilyn y broses gystadleuol)	Contractau seiliedig ar gytundeb fframwaith heb gystadleuaeth	Contractau seiliedig ar gytundeb fframwaith yn dilyn cystadleuaeth
<b>Cyfleu penderfyniadau:</b>	✓		✓

<sup>27</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime \(PSR\) draft statutory guidance](#)

Cyhoeddi'r hysbysiad bwriad i ddyfarnu			
---	--	--	--

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi nodi mai pwrpas y cyfnod hwn yw rhoi cyfle i ddarparwyr gyflwyno sylwadau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a thrafod unrhyw bryderon neu broblemau, ac i gyrrff sy'n gwneud penderfyniadau ymateb i unrhyw sylwadau a ddaw i law. Mae cyfnod segur yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfnod o wyth diwrnod gwaith o leiaf, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gellir cyflwyno sylwadau. Os derbynnir sylw yn ystod y cyfnod hwn, yna bydd y cyfnod segur yn cael ei ymestyn i ganiatáu i'r 'awdurdod perthnasol' ystyried y sylw.

O dan ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ni all darparwyr gyflwyno sylw ar ôl hanner nos ar wythfed diwrnod gwaith y cyfnod segur, hyd yn oed os yw'r cyfnod segur wedi cael ei ymestyn mewn ymateb i sylw gan ddarparwr arall. Os yw darparwyr yn anfodlon ag ymateb yr 'awdurdod perthnasol' i'w sylw, gall y darparwr wneud cais i'r panel adolygu PSR annibynnol i ystyried y sylw ymhellach (fel yr amlinellir yn [Adran G](#) uchod – Adolygu penderfyniadau o dan y drefn gaffael). Os bydd darparwr yn anfon sylw at y panel adolygu PSR, ni all yr 'awdurdod perthnasol' ddyfarnu'r contract nes iddo gael cyngor y panel adolygu PSR, rhoi gwybod i'r darparwr am ei benderfyniad pellach, ac yna aros pum diwrnod gwaith cyn dyfarnu'r contract yn derfynol (neu cyn iddo ddychwelyd i gam cynharach yn y broses neu roi'r gorau i'r broses gaffael).

- **Gweithrediad:**

<b>I – Cyfnod(au) Segur</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
<p>Mae Rheoliad 12 Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gwneud darpariaeth ar gyfer 'cyfnod segur', mae'r cyfnod yn dechrau'r diwrnod ar ôl cyhoeddi hysbysiad o fwriad i ddyfarnu neu gwblhau ac yn dod i ben am hanner nos ar yr 8<sup>fed</sup> diwrnod gwaith ar ôl i'r cyfnod segur ddechrau.</p> <p>Pan fydd 'awdurdod perthnasol' yn dilyn 'Proses Dyfarniad Uniongyrchol C', 'Proses y Darparwr Mwyaf Addas' neu'r 'Broses Gystadleuol', (gan gynnwys cwblhau cytundeb fframwaith neu fwriad i ddyfarnu contract ar sail cytundeb fframwaith yn dilyn mini-gystadleuaeth), <b>ni</b> chaiff ymrwymo i'r contract na chwblhau cytundeb fframwaith yn ystod y cyfnod segur.</p>	<p>Rydym yn cynnig y dylai trefn newydd i Gymru yn y dyfodol geisio cyd-fynd â'r darpariaethau cyfnod segur a nodir yn rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd y dull hwn yn galluogi caffael gwasanaethau iechyd i weithredu mewn ffordd 'deg' rhwng Cymru a Lloegr, gan gyd-fynd â'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol; dangos tryloywder penderfyniadau gan 'awdurdodau perthnasol'; rhoi cyfle i ddarparwyr herio penderfyniadau a chyflwyno sylwadau.</p>

Pwrpas y cyfnod segur yw rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau iechyd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i 'awdurdodau perthnasol' mewn perthynas â chontractau a ddyfernir a chaniatáu cyfnod o amser i 'awdurdod perthnasol' i adolygu penderfyniadau caffael a wnaed a chymryd camau amgen os oes angen.

Rhaid i'r 'awdurdodau perthnasol' sicrhau bod pob darparwr sydd wedi cyflwyno sylwadau yn cael cyfle pellach o'r fath i esbonio neu egluro eu sylwadau ac unwaith y bydd yr 'awdurdod perthnasol' wedi adolygu'r penderfyniad i ddyfarnu'r contract neu gwblhau'r cytundeb fframwaith, gan ystyried y sylwadau a wnaed, rhaid iddo wedyn wneud penderfyniad pellach un ai i ddyfarnu'r contract fel y bwriadwyd, ailadrodd camau yn y broses gaffael, neu roi'r gorau i'r broses gaffael.

Rhaid i 'awdurdodau perthnasol' ddarparu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani gan ddarparwr a dramgwyddwyd y mae gan yr 'awdurdod perthnasol' ddyletswydd i'w chofnodi o dan Reoliad 24 (yn ddarostyngedig i rai eithriadau).

Pan ddaw sylw i law, bydd y cyfnod segur yn parhau nes bydd yr 'awdurdod perthnasol' yn cwblhau ei adolygiad ac yn cyfleu ei benderfyniad. Gall y darparwr hefyd ofyn am adolygiad ychwanegol o'i sylw gan y panel adolygu PSR o fewn pum diwrnod gwaith i benderfyniad yr awdurdod perthnasol os yw'n parhau'n anfodlon ag ymateb yr 'awdurdod perthnasol' i'w sylw, a bydd y cyfnod segur yn parhau dros y cyfnod hwnnw. Bydd y panel adolygu PSR yn rhannu ei ganfyddiadau a'i argymhellion gyda'r darparwr a'r 'awdurdod perthnasol'. Gall yr 'awdurdod perthnasol' wneud dyfarniad terfynol ddim llai na phum diwrnod gwaith ers iddo roi gwybod i ddarparwyr am ei benderfyniad terfynol yn dilyn proses y panel adolygu PSR.

Mae rhagor o wybodaeth am amserlenni cyfnod segur PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gael yn Rheoliad 12.



--	--

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C32</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru gyd-fynd â chyfnod segur sydd i'w ddilyn ar gyfer 'Proses Dyfarniad Uniongyrchol' C, 'Y Broses Darparwr Mwyaf Addas', a'r 'Broses Gystadleuol' sy'n sefydlu cytundeb fframwaith neu fwriad i ddyfarnu contract yn seiliedig ar gytundeb fframwaith yn dilyn proses gystadleuol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C33</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r amserlen ar gyfer sylwadau a nodwyd yng nghyfundrefn arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol? A ddylid cael amserlen wahanol o ran rhoi'r drefn ar waith yng Nghymru?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion.</p>
<b>C34</b>	<p>A oes gennych unrhyw farn am rôl y 'panel adolygu annibynnol' mewn perthynas â'r cyfnod segur mewn unrhyw gyfundrefn gwasanaeth iechyd newydd i Gymru yn y dyfodol? Rhowch fanylion.</p>

## J - Gwrthdaro Rhwng Buddiannau

- **Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi darpariaethau i sicrhau bod 'awdurdodau perthnasol' yn gweithredu trefniadau llywodraethu da ac yn mynnu bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i atal gwrthdaro rhwng buddiannau, eu nodi a'u cywiro'n effeithiol. Mae'n ofynnol i unrhyw wrthdaro neu wrthdaro posibl rhwng buddiannau gael ei gynnwys mewn hysbysiadau tryloywder, gan gynnwys hysbysiadau dyfarnu contractau, yn ogystal â rhan o'r gofynion gwybodaeth sydd yn Rheoliad 24.

- **Gweithrediad:**

<b>J - Gwrthdaro Rhwng Buddiannau</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
Mae Rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys darpariaethau ynghylch rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau (Rheoliad 21). Mae'r Rheoliadau PSR yn darparu bod y cysyniad o wrthdaro rhwng buddiannau yn cynnwys unrhyw sefyllfa lle mae gan unigolyn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fuddiant ariannol, economaidd neu bersonol arall y gellid ystyried ei fod yn peryglu ei ddiueddwydd a'i annibyniaeth yng nghyd-destun y broses gaffael. Mae'n ofynnol i unrhyw unigolyn o'r fath ymryddhau o'r broses gwneud penderfyniadau.	Rydym yn cynnig y dylai trefn newydd ar gyfer Cymru yn y dyfodol geisio cyd-fynd â chynigion ynghylch gwrthdaro rhwng buddiannau a nodir yn Rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, (ac eithrio cyfeiriadau at Fyrddau Gofal Integredig gan nad yw'r cyrff hyn yn bodoli yng Nghymru).  Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r dull o reoli gwrthdaro rhwng buddiannau yng ngoleuni adborth gan randdeiliaid i'r ymgynghoriad hwn ac yn cael ei gynnwys fel rhan o'r gwaith o ddatblygu rheoliadau yn y dyfodol ar gyfer trefn gaffael newydd i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.
<b>Cwestiynau:</b>	

<b>C35</b>	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu o ran gwrthdaro rhwng buddiannau a amlinellir yn Rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol? <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> </ul>
------------	--

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> Rhowch ragor o fanylion?
<b>C36</b>	A oes gennych unrhyw farn ynghylch sut y gellid adnabod, monitro a rheoli unrhyw 'wrthdaro rhwng buddiannau' yn fwy effeithiol mewn trefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru?

## K - Terfynu Contractau

- **Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol sicrhau darpariaeth ym mhob contract y maent yn ei ddyfarnu i allu ei derfynu o dan rai amgylchiadau. Mae hyn yn cynnwys pan fo contract wedi bod yn destun addasiadau nad ydynt yn cael eu caniatáu o dan y drefn heb ddilyn proses gaffael newydd neu pan ddylai'r darparwr, ar adeg y dyfarniad, fod wedi cael ei eithrio o'r broses gaffael yn unol â'r rheoliad eithrio perthnasol.

- **Gweithrediad:**

<b>K - Terfynu Contractau</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
Mae Rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys darpariaeth ynghylch terfynu contractau (Rheoliad 22). Mae'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob contract a ddyfernir o dan y drefn gynnwys darpariaeth sy'n galluogi terfynu'r contract pan fo'r contract wedi bod yn destun addasiad na ellir ei wneud o dan Rheoliad 13, gan ei gwneud yn ofynnol felly i'r 'awdurdod perthnasol' ymgymryd â phroses newydd; neu y dylai'r darparwr, ar adeg y dyfarniad, fod wedi'i eithrio o'r broses gaffael yn unol â Rheoliad 20(1).	Rydym yn cynnig y dylai trefn newydd i Gymru yn y dyfodol geisio cyd-fynd â'r darpariaethau terfynu a nodir yn rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C37</b>	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu ar gyfer terfynu contractau a amlinellwyd yn Rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol? Manylwch ar eich barn.

## L - Cytundebau Fframwaith

- Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi bod yn rhaid defnyddio'r Broses Gystadleuol wrth sefydlu cytundeb fframwaith. Rhaid i gytundeb fframwaith a sefydlir o dan y PSR fod i'r diben o sefydlu gwasanaethau gofal iechyd sydd o fewn cwmpas y drefn (neu sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer caffael cymysg yn y drefn). Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi sefydlu na ddylai cytundeb fframwaith o dan PSR fod yn hirach na phedair blynedd (ac eithrio mewn achosion eithriadol) ac y gallai ganiatáu cyfle i 'awdurdodau perthnasol' ganiatáu i ddarparwyr newydd ymuno â'r fframwaith yn ystod cyfnod y fframwaith.

- Gweithrediad:**

<b>L - Cytundebau fframwaith</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
<p>Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn darparu y caiff 'awdurdodau perthnasol' sefydlu cytundebau fframwaith i drefnu gwasanaethau gofal iechyd perthnasol sydd o fewn cwmpas y drefn (Rhan 3, Rheoliadau 16 -18 o'r Rheoliadau PSR).</p> <p>Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn datgan na chaiff hyd cytundeb fframwaith fod yn hirach na phedair blynedd (ac eithrio mewn achosion eithriadol y gellir eu cyfiawnhau gan destun y fframwaith) ac maent yn caniatáu i 'awdurdodau perthnasol' ddewis rhagor o ddarparwyr i ymuno â'r fframwaith.</p> <p>Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn datgan mai dim ond yn unol â'r rheoliad y gellir dyfarnu contract sy'n seiliedig ar gytundeb fframwaith ac na ddylai olygu gwneud</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai trefn newydd ar gyfer Cymru yn y dyfodol geisio cyd-fynd â'r darpariaethau i gytundebau fframwaith a nodir yn rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.</p> <p>Fodd bynnag, bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu yn unol ag adborth rhanddeiliaid ar anghenion a phrosesau nawr ac yn y dyfodol ar gyfer sefydlu a gweithredu fframweithiau i ddarparu gwasanaethau iechyd.</p> <p>Er enghraifft, efallai y byddwn eisiau sicrhau bod hyblygrwydd o ran dull gweithredu i agor fframwaith o bryd i'w gilydd i rai newydd neu fod â'r gallu i gael amserlen hirach ar gyfer cytundeb fframwaith.</p>

<p>addasiadau sylweddol yn y cytundeb fframwaith hwnnw. Pan fydd fframwaith yn cael ei gwblhau gydag un darparwr, gellir dyfarnu contract heb gystadleuaeth. Pan fydd cytundeb fframwaith yn cael ei gwblhau gyda mwy nag un darparwr, gellir dyfarnu contract naill ai heb gystadleuaeth neu yn dilyn proses gystadleuol yn unol â'r cytundeb fframwaith.</p>	<p>Efallai y bydd angen inni hefyd ystyried y rheolau ar fframweithiau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau ehangach a fydd yn cael eu nodi yn y Ddeddf Caffael, hy sefydlu cytundebau fframwaith 'caeedig' ac 'agored' ac unrhyw amserlenni cysylltiedig ar gyfer cytundebau fframwaith.</p>
--	--

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C38</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu ar gyfer cytundebau fframwaith a amlinellir yn Rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C39</b>	<p>A ydych yn credu y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol geisio cael amserlen hiraf arall ar gyfer fframwaith? Os felly, rhowch fanylion am yr hyn a fyddai, yn eich barn chi, yn amserlen briodol a pham?</p>
<b>C40</b>	<p>A ydych yn credu y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol geisio cael y cyfle i agor fframwaith ar adegau penodol er mwyn i rai newydd allu dod yn rhan o fframwaith?</p>

## **M - Dyfarniadau neu addasiadau brys**

- **Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod y gallai fod rhai adegau prin pan fydd angen i 'awdurdod perthnasol' weithredu ar frys i fynd i'r afael â risgiau brys i ddiogelwch ac ansawdd gofal, ac felly mae wedi sefydlu prosesau i ddyfarnu contract neu addasu contract presennol

mewn amgylchiadau lle mae angen gwasanaeth newydd i reoli argyfyngau annisgwyl (er enghraifft, mae pryder diogelwch brys yn peri risgiau i gleifion neu lle nad yw darparwr presennol yn gallu gweithredu'n sydyn).

• **Gweithrediad:**

<b>M - Dyfarniadau neu addasiadau brys</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
<p><b>Dyfarniadau/addasiadau brys</b></p> <p>Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gwneud darpariaeth o dan Reoliad 14 i ganiatáu i gontract brys gael ei ddyfarnu neu i gontract presennol gael ei addasu o dan rai amgylchiadau pan fo 'awdurdod perthnasol' o'r farn;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod yn rhaid dyfarnu neu addasu ar frys,</li> <li>• nad oedd modd i'r 'awdurdod perthnasol' ragweld rhesymau dros y brys a lle nad oes modd priodoli'r rhesymau i'r 'awdurdod perthnasol' a</li> <li>• byddai gohirio dyfarnu neu addasu'r contract i ddilyn un o'r prosesau caffael eraill yn y rheoliadau cyn i'r contract presennol ddod i ben yn debygol o beri risg i ddiogelwch cleifion neu'r cyhoedd.</li> </ul> <p>Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i 'awdurdodau perthnasol' weithredu'n gyflym lle byddai oedi'n debygol o beri risg i ddiogelwch cleifion neu'r cyhoedd mewn ymateb i ddigwyddiadau na ellir eu rhagweld, a lle nad yw'r rheswm dros y brys i'w briodoli i'r 'awdurdod perthnasol'.</p>	<p>Rydym yn cynnig y dylai trefn newydd i Gymru yn y dyfodol geisio cyd-fynd â'r darpariaethau dyfarnu neu addasu brys a nodir yn rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.</p>

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C41</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu yn Rheoliad 14, dyfarniadau neu addasiadau brys?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> </ul>

- Anghytuno
  - Anghytuno'n gryf.
- Rhowch ragor o fanylion?

## N - Rhoi'r gorau i gamau caffael neu ailadrodd y camau hynny

- **Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi caniatáu yn y Rheoliadau PSR i 'awdurdod perthnasol' roi'r gorau i'r broses o ddewis darparwr a pheidio â dyfarnu contract o dan y dull gweithredu hwnnw ar yr amod bod y penderfyniad i roi'r gorau i broses yn dryloyw, yn deg ac yn gymesur. Mae'r Rheoliadau PSR hefyd yn caniatáu i 'awdurdod perthnasol' fynd yn ôl ac ailadrodd cam mewn proses dethol darparwr o dan Broses Dyfarniad Uniongyrchol C, y Broses Darparwr Mwyaf Addas, neu'r Broses Gystadleuol mewn rhai amgylchiadau.

- **Gweithrediad:**

<b>N - Rhoi'r gorau i gamau caffael neu ailadrodd y camau hynny</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
<p>Mae <b>Rheoliad 15</b> yn caniatáu i 'awdurdod perthnasol' roi'r gorau i gaffael a pheidio â dyfarnu contract neu beidio â chwblhau cytundeb fframwaith; neu fynd yn ôl at gam cynharach yn y broses ddethol ac ailadrodd y cam hwnnw a'r camau dilynol.</p> <p>Dylai penderfyniadau i roi'r gorau i broses fod yn dryloyw, yn deg ac yn gymesur, a rhaid cyflwyno hysbysiad o fewn 30 diwrnod i'r penderfyniad i roi'r gorau i broses dethol darparwr.</p> <p>Wrth ddilyn Proses Dyfarniad Uniongyrchol C, y Broses Darparwr Mwyaf Addas, neu'r Broses Gystadleuol, gall 'awdurdodau perthnasol' benderfynu dychwelyd i gam cynharach yn y broses benderfynu. Fodd bynnag, mae rheolau gwahanol yn berthnasol i benderfyniadau a wneir yn y cyfnod segur (<b>Rheoliad 15 (3) DS</b>). Rhaid i 'awdurdodau perthnasol' beidio â defnyddio'r opsiwn i ddychwelyd i gam cynharach yn y broses o ddethol darparwr fel cyfle i addasu'r paramedrau dethol.</p>	<p>Rydym yn cynnig y dylai trefn newydd i Gymru yn y dyfodol geisio cyd-fynd â'r darpariaethau rhoi gorau i gamau neu eu hailadrodd a nodir yn rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.</p>

Rhaid i awdurdodau perthnasol hefyd gadw cofnod o'u rhesymau dros roi'r gorau i broses dethol darparwr.	
---	--

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C42</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu yn Rheoliad 15, rhoi'r gorau i gamau caffael neu ailadrodd y camau hynny?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>

## O - Eithriadau

### • Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Mae Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i 'awdurdod perthnasol' ymgymryd â diwydrwydd dyladwy rhesymol a chymesur ar ddarparwr. Rhaid i 'awdurdod perthnasol' beidio â dyfarnu contract i ddarparwr a gall eithrio darparwr o unrhyw un o'r prosesau PSR os yw'r darparwr yn bodloni'r meini prawf eithrio a nodir yn Rheoliad 20.

### • Gweithrediad:

<b>O - Eithriadau</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
Mae Rheoliad 20 yn nodi na chaiff 'awdurdod perthnasol' ddyfarnu contract i ddarparwr ac y caiff eithrio darparwr o broses gaffael, lle byddai'n rhaid i'r 'awdurdod perthnasol' eithrio'r darparwr rhag cymryd rhan mewn gweithdrefn gaffael o dan Reoliad 57 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (seiliau eithrio) fel petai'r 'awdurdod	Rydym yn cynnig y dylai trefn newydd i Gymru yn y dyfodol geisio cyd-fynd â'r darpariaethau eithrio a nodir yn rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.



<p>perthnasol' yn awdurdod contractio a bod y darparwr yn weithredwr economaidd o dan y rheoliad hwnnw.</p> <p>Caiff yr 'awdurdod perthnasol' hefyd eithrio darparwr o broses gaffael lle byddai'r awdurdod perthnasol, yn ôl ei ddisgresiwn, yn gallu eithrio'r darparwr rhag cymryd rhan mewn trefn gaffael o dan Reoliad 57 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Mae'r cyfnod eithrio perthnasol wedi'i nodi o dan 57(11) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.</p> <p>Caiff y darparwr ddarparu tystiolaeth sy'n rhoi manylion y mesurau y mae'r darparwr wedi'u cymryd a gellir pennu bod y dystiolaeth honno'n ddigon i ddangos ei fod yn ddibynadwy er bod sail berthnasol dros eithrio yn bodoli. Pan fydd yr 'awdurdod perthnasol' yn ystyried bod y mesurau sydd wedi cael eu dangos gan y darparwr yn ddigonol, ni chaiff yr 'awdurdod perthnasol' eithrio'r darparwr o'r broses gaffael. Pan fydd yr 'awdurdod perthnasol' yn credu nad yw'r mesurau'n ddigonol, rhaid i'r awdurdod perthnasol roi datganiad i'r darparwr sy'n nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.</p> <p>DS. Nid yw'r rheoliad hwn yn berthnasol i gontract sy'n seiliedig ar gytundeb fframwaith.</p>	
---	--

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C43</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu yn PSR Rheoliadau 20, eithriadau?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>

## P - Gofal Sylfaenol

- Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae GIG Lloegr wedi creu canllawiau ynghylch cynnig PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac wedi cynnwys atodiad sy'n cynnwys gwybodaeth atodol i gomisiynwyr gwasanaethau gofal sylfaenol (Atodiad C o'r canllawiau statudol a gynhyrchwyd gan GIG Lloegr<sup>28</sup>). Mae'r atodiad yn darparu gwybodaeth ychwanegol am sut y disgwylir i'r drefn gael ei defnyddio wrth ddethol darparwyr i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol.

- Gweithrediad:**

<b>P - Gofal Sylfaenol</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>
<p>Gyda'i gilydd mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn cyfeirio at ofal meddygol sylfaenol, fferylliaeth gymunedol, gofal deintyddol sylfaenol a gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol. Mae caffael y rhan fwyaf o wasanaethau gofal sylfaenol o fewn cwrpas gweithdrefn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.</p> <p>Mae canllawiau GIG Lloegr yn rhoi manylion ynghylch sut y gellir defnyddio'r drefn wrth ddethol darparwyr ar gyfer gwasanaethau gofal meddygol sylfaenol ar draws y senarios canlynol: parhad contractau presennol, addasu contractau presennol, darparwr yn gadael mewn ffordd wedi'i chynllunio, newidiadau sydyn neu heb eu cynllunio i gontractau presennol a gwasanaethau newydd ac integredig.</p> <p>Mae canllawiau GIG Lloegr yn darparu gwybodaeth am gontractau sy'n gontractau di-dor sy'n rhedeg nes iddynt gael eu terfynu, contractau sydd â chyfyngiad amser a sut y dylid rheoli'r rhain o dan y PSR.</p>	<p>Rydym yn cynnig y dylai'r canllawiau ar gyfer trefn newydd i Gymru yn y dyfodol geisio cyd-fynd â defnyddio'r darpariaethau gwasanaethau gofal sylfaenol a nodir yng nghanllawiau statudol y PSR.</p> <p>Nid ydym yn bwriadu cyd-fynd â 'Gwasanaethau Meddygol Personol' Practis Meddygon Teulu mewn perthynas â darparwyr practisiau meddygon teulu o dan y Rheoliadau PSR, gan nad oes darpariaeth gyfatebol yng Nghymru.</p> <p>Fodd bynnag, rydym yn cynnig ychwanegu canllawiau ynghylch contractau sy'n benodol i Gymru, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Contractau Cymunedol/Safonol</li><li>• Contractau Gwasanaethau Estynedig</li><li>• Contractau Carchardai</li><li>• Contractau Darparwyr Amgen</li></ul>

<sup>28</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime: draft statutory guidance](#)

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C44</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu ar gyfer contractau gofal sylfaenol fel yr amlinellir yng nghanllawiau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C45</b>	<p>O ran caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, a oes gennych unrhyw farn neu bryderon ynghylch hepgor 'Gwasanaethau Meddygol Personol' (PMS) practisiau meddygon teulu o ganllawiau ar gyfer trefn gaffael newydd y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol? Rhowch esboniad.</p>
<b>C46</b>	<p>A oes enghreifftiau o gontractau gwasanaethau gofal sylfaenol sy'n cael eu caffael yng Nghymru ar hyn o bryd nad ydynt wedi'u diffinio yng nghanllawiau GIG Lloegr neu sy'n cael eu cofnodi uchod fel pwyntiau gwahanol? Os felly, nodwch y gwasanaethau hyn.</p>

## Q - Trefniadau pontio, cyflwyno a gweithredu

- **Trosolwg o ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Bwriad PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw rhoi proses hyblyg a chymesur i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn dethol darparwyr i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i'r cyhoedd gyda'r nod o wella cydweithio a chael gwared ar yr anhyblygrwydd sy'n gysylltiedig â'r rheolau caffael sydd mewn grym ar hyn o bryd. Bydd cwmpas Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn golygu bod angen trefniadau pontio, cyflwyno a gweithredu ar gyfer pob 'awdurdod perthnasol', a enwir yn y Rheoliadau.

- **Gweithrediad:**

<b>Q - Trefniadau pontio, cyflwyno a gweithredu</b>	
<b>PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Loegr</b>	<b>Dull arfaethedig o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru</b>

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a GIG Lloegr wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o drawsnewid a gweithredu'r PSR drwy sicrhau bod adnoddau penodol ar gael drwy offer gweithredu.	Pe bai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yn cael ei sefydlu yng Nghymru yn y dyfodol, rydym yn cynnig cefnogi'r broses o bontio a gweithredu drwy gyhoeddi pecynnau cymorth a chynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth.
---	--

<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C47</b>	I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gael ei chefnogi drwy sefydlu pecynnau cymorth a sesiynau codi ymwybyddiaeth? <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno Anghytuno'n gryf.</li> </ul> Rhowch ragor o fanylion?
<b>C48</b>	O ran gweithredu trefn gaffael arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, a oes gennych chi unrhyw safbwyntiau neu bryderon am drefniadau pontio, cyflwyno ac amseru'r gweithredu? Rhowch ragor o fanylion am eich barn.
<b>C49</b>	Pryd ydych chi'n meddwl y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ddod i rym yn y dyfodol? Rhowch fanylion am eich barn.
<b>C50</b>	A oes gennych chi farn ynghylch a ddylai unrhyw drefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru geisio cyd-fynd â'r amserlenni i gyflwyno'r newidiadau arfaethedig sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer caffael cyhoeddus ehangach o dan Ddeddf Caffael Llywodraeth y DU, ynteu gael eu cyflwyno ar adeg wahanol?

## R - Cwestiynau cyffredinol

<b>Cyffredinol</b>	
<b>Effeithiau ar adnoddau a chostau i sefydliadau ac i unigolion</b>	
<b>C51</b>	Rhowch fanylion unrhyw gynnydd/gostyngiad disgwylidig mewn adnoddau/costau rhedeg gweithredol ar gyfer eich sefydliad sy'n gysylltiedig â gweithredu trefn darparwyr gwasanaeth iechyd newydd yng Nghymru?

<b>C52</b>	Mae canllawiau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn sôn am y 'dirwedd darparwyr' <sup>29</sup> a'r disgwyliadau i ddatblygu ac i gynnal gwybodaeth ddigon manwl am ddarparwyr perthnasol. A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar sut y gellid cyflawni hyn yng Nghymru, pe baem yn dewis cydlynu â PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer yr elfen hon?
<b>C53</b>	Mae canllawiau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi disgwyliadau mewn perthynas â dethol darparwyr ac arferion da mewn perthynas â blaengynllunio 'awdurdod perthnasol' ac yn mapio'n glir y gweithgareddau masnachol disgwylid yn y dyfodol. <sup>30</sup> Rhowch fanylion am eich barn am sut y gellid cyflawni hynny fel rhan o unrhyw drefn caffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol?
<b>Adolygu'r drefn newydd</b>	
<b>C54</b>	Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu gweithrediad y drefn newydd arfaethedig ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru o fewn cyfnod o bum mlynedd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. A oes gennych unrhyw farn ynghylch sut y dylid gwneud hynny?
<b>Effaith ar y Gymraeg</b>	
<b>C55</b>	Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y drefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar y Gymraeg? Rydym yn arbennig o awyddus i glywed am unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Os felly, sut gellir gwneud hyn?</li> <li>○ Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol? Os felly, sut gellir gwneud hyn?</li> </ul>
<b>C56</b>	Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid trefn gaffael newydd arfaethedig y gwasanaeth iechyd er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ iddi gael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu</li> <li>○ iddi liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?</li> </ul> Manylwch ar eich barn.
<b>Unrhyw sylwadau eraill</b>	
<b>C57</b>	A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi ynghylch yr egwyddorion gweithredol ar gyfer gweithredu trefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd i ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon? Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, rhowch y manylion.

<sup>29</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime: draft statutory guidance](#), gweler yr adran 'Provider Landscape'

<sup>30</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime: draft statutory guidance](#), gweler yr adran 'Applying the regime, Planning'

<b>C58</b>	Rhowch fanylion eich sefydliad. Ydych chi'n ymateb ar ran: <ul style="list-style-type: none"><li>• GIG</li><li>• Awdurdod Lleol</li><li>• Y trydydd sector/sector gwirfoddol</li><li>• Y sector preifat</li><li>• Arall – rhowch fanylion.</li></ul>
<b>C59</b>	Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, eu cyhoeddi fel rhan o grynodedb o'r ymatebion ar y rhyngwrwyd neu fel rhan o adroddiad sydd ar gael i'r cyhoedd.  Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

## Pennod 4 – Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

A	Cwmpas cyffredinol gwasanaethau iechyd a'u gweithrediad
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C1</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r drefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru gynnwys rhestr o wasanaethau iechyd fel y'u diffinnir gan godau CPV?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch fanylion</p>
<b>C2</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y rhestr o godau a gyflwynwyd yn Rheoliadau PSR drafft yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynrychioli'n gywir ehangder a chwmpas diffinio gwasanaethau iechyd sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd neu y gellid eu caffael yn y dyfodol yng Nghymru?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion.</p>
<b>C3</b>	<p>A oes unrhyw wasanaethau iechyd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr o godau a gyflwynwyd yn Rheoliadau PSR drafft yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, lle mai gwasanaethau iechyd yw'r prif bwnc, sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd neu a fydd yn cael eu darparu yn y dyfodol yng Nghymru a ddylai, yn eich barn chi, fod o fewn cwmpas trefn gaffael newydd arfaethedig i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru? Os felly, rhowch fanylion (ac os yw'n berthnasol, y codau CPV perthnasol)?</p>
<b>C4</b>	<p>A oes unrhyw godau CPV sydd wedi'u cynnwys ar restr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol nad ydynt yn berthnasol i gaffael a darparu gwasanaeth iechyd yng Nghymru ac felly na ddylid eu hefelychu mewn trefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? Os felly, rhowch fanylion.</p>
<b>C5</b>	<p>A oes enghreifftiau o wasanaethau iechyd sy'n cael eu caffael yng Nghymru ar hyn o bryd nad ydynt yn cael eu diffinio gan god CPV? Os felly, nodwch y gwasanaethau hyn.</p>
<b>C6</b>	<p>Mae rhestr codau CPV PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys rhai gwasanaethau gofal sylfaenol ac felly'n cael eu cofnodi o dan y drefn PSR. A oes</p>

	unrhyw godau CPV sydd wedi'u cynnwys ar restr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol nad ydynt yn berthnasol i'r gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru? A oes enghreifftiau o wasanaethau gofal sylfaenol sy'n cael eu caffael yng Nghymru ar hyn o bryd nad ydynt yn cael eu diffinio gan god CPV yn rhestr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol?
--	---

<b>B Meini prawf allweddol a meini prawf dethol sylfaenol</b>	
<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C7</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu yn Atodlen 16 i Adroddiad PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch y meini prawf dethol sylfaenol (hy y gall awdurdod perthnasol osod gofynion cymesur i'w bodloni gan ddarparwyr sydd <b>ond</b> yn ymwneud â'r meini prawf dethol sylfaenol: (a) addasrwydd i fynd ar drywydd gweithgaredd penodol; (b) statws economaidd ac ariannol; ac (c) gallu technegol a phroffesiynol)?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C8</b>	<p>Ydych chi'n credu y dylid cynnwys <b>meini prawf sylfaenol</b> ychwanegol mewn trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol? Os felly, rhowch fanylion.</p>
<b>C9</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r <b>meini prawf allweddol</b> a gynigir i'w cynnwys yn y drefn newydd i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C10</b>	<p>A oes unrhyw <b>feini prawf allweddol</b> eraill y credwch y mae angen i 'awdurdod perthnasol' eu hystyried wrth wneud penderfyniadau i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru er mwyn adlewyrchu amcanion polisi ehangach i Gymru? Rhowch fanylion.</p>
<b>C11</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid diffinio <b>meini prawf allweddol</b> mewn rheoliadau yn y dyfodol ar gyfer cyfundrefn gwasanaeth iechyd newydd arfaethedig i Gymru?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> </ul>



	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
--	--

<b>C Caffael Cymysg</b>	
<b>Cwestiynau:</b>	
<b>C12</b>	Ar wahân i wasanaethau gofal cymdeithasol, pa fathau eraill o nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu caffael ar hyn o bryd, neu a allai gael eu caffael yn y dyfodol o fewn cwrmpas gwasanaethau iechyd gan 'awdurdod perthnasol' i ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru – hy caffael cymysg? Rhowch enghreifftiau (ac, os yw'n bosibl, godau CPV).
<b>C13</b>	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r diffiniad trothwy 'prif bwnc' ar gyfer caffael cymysg a'i berthnasedd i drefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C14</b>	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â gweithredu'r trothwy 'rhesymol wahanadwy' yng Nghymru? . <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C15</b>	Wrth ystyried sut y mae gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol annibynnol yn cael eu caffael yng Nghymru ar hyn o bryd, a ydych yn rhagweld unrhyw broblemau neu fanteision wrth greu dulliau o'r fath ar gyfer caffael cymysg yng Nghymru? Rhowch fanylion.
<b>C16</b>	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai'r 'prif bwnc' yw gwasanaethau iechyd <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau penodol â'r dull hwn o weithredu? Os felly, rhowch ragor o fanylion.</p>

<b>C17</b>	I ba raddau ydych chi'n credu y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac unrhyw drefniadau cyllideb cyfun? Rhwch fanylion.
------------	--

<b>D</b>	<b>Prosesau Caffael</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C18</b>	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn newydd arfaethedig i gaffael gwasanaethau iechyd ar gyfer Cymru gysoni'r 'amgylchiadau gwneud penderfyniadau' â'r rheini a nodir yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (ac eithrio Proses Dyfarniad Uniongyrchol B – 'Dewis y Claf')? <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> Rhowch ragor o fanylion?
<b>C19</b>	O ran caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, a oes gennych unrhyw farn am unrhyw amgylchiadau eraill lle dylai proses wahanol fod ar waith yng nghyswllt cyfundrefn caffael gwasanaeth iechyd newydd yng Nghymru yn y dyfodol? Rhwch esboniad.

<b>E</b>	<b>Addasu contractau yn ystod eu cyfnod</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C20</b>	Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn newydd yn y dyfodol ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru geisio cyd-fynd â dull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran addasiadau i gontractau fel y'i nodir yn y Rheoliadau PSR? <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> Rhowch ragor o fanylion?
<b>C21</b>	A oes gennych unrhyw farn ynghylch a ddylid mabwysiadu dull amgen o addasu contractau yng Nghymru? Rhwch fanylion.

<b>F</b>	<b>Trothwy 'newid sylweddol'</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C22</b>	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r trothwy arfaethedig ar gyfer 'newid sylweddol' fel y'i nodir yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a pherthnasedd hynny ar gyfer caffael darpariaeth gwasanaethau iechyd yng Nghymru? <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C23</b>	Os ydych o'r farn y dylai'r trothwyon newid sylweddol fod yn wahanol yng Nghymru i'r rhai a nodwyd yn Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, eglurwch pam. Nodwch beth yn eich barn chi fyddai'n drothwy mwy priodol ar gyfer newid sylweddol mewn trefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

<b>G</b>	<b>Adolygu penderfyniadau o dan y drefn gaffael</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C24</b>	<p>O ystyried y dull arfaethedig y mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i fabwysiadu o ran adolygu penderfyniadau yn ei PSR arfaethedig, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â sefydlu panel annibynnol i roi cyngor ar benderfyniadau caffael wrth weithredu trefn newydd arfaethedig i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C25</b>	Rhowch fanylion ynghylch sut y gallai panel annibynnol weithredu yng Nghymru yn eich barn chi?
<b>C26</b>	A ydych yn credu y byddai'n fwy addas cael dull gweithredu gwahanol yng Nghymru i'r hyn a nodir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran cyngor annibynnol ar weithredu trefn gaffael newydd i'r gwasanaeth iechyd yn y dyfodol? Os felly, rhowch fanylion.

<b>H</b>	<b>Tryloywder, monitro a chyhoeddi gwybodaeth</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C27</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu o ran tryloywder, monitro a chyhoeddi gwybodaeth ag sydd yn Rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C28</b>	A ydych yn credu bod dull amgen neu fathau eraill o wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i ddangos tryloywder a monitro'r defnydd o drefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? Manylwch ar eich barn.
<b>C29</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd ag amseriad ac amllder adroddiadau ar dryloywder a amlinellwyd uchod ac yn rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C30</b>	A oes gennych chi unrhyw farn ynghylch yr wybodaeth y mae angen ei chyhoeddi yng nghynnwys hysbysiad a bennir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i pherthnasedd i drefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? Manylwch ar eich barn.
<b>C31</b>	A oes gennych chi unrhyw farn ynghylch y gofyniad i 'awdurdodau perthnasol' yng Nghymru gyhoeddi manylion y 'gwneuthurwyr penderfyniadau' fel rhan o'r wybodaeth am ddyfarnu contractau? Manylwch ar eich barn

<b>I</b>	<b>Cyfnodau Segur</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C32</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru gyd-fynd â chyfnod segur sydd i'w ddilyn ar gyfer 'Proses Dyfarniad Uniongyrchol' C, 'Y Broses Darparwr Mwyaf Addas', a'r 'Broses Gystadleuol' sy'n sefydlu cytundeb fframwaith neu fwriad i ddyfarnu contract yn seiliedig ar gytundeb fframwaith yn dilyn proses gystadleuol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C33</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r amserlen ar gyfer sylwadau a nodwyd yng nghyfundrefn arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol? A ddylid cael amserlen wahanol o ran rhoi'r drefn ar waith yng Nghymru?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion.</p>
<b>C34</b>	A oes gennych unrhyw farn am rôl y 'panel adolygu annibynnol' mewn perthynas â'r cyfnod segur mewn unrhyw gyfundrefn gwasanaeth iechyd newydd i Gymru yn y dyfodol? Rhowch fanylion.

<b>J</b>	<b>Gwrthdaro Rhwng Buddiannau</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C35</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu o ran gwrthdaro rhwng buddiannau a amlinellir yn Rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C36</b>	A oes gennych unrhyw farn ynghylch sut y gellid adnabod, monitro a rheoli unrhyw 'wrthdaro rhwng buddiannau' yn fwy effeithiol mewn trefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru?

<b>K</b>	<b>Terfynu Contractau</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C37</b>	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu ar gyfer terfynu contractau a amlinellwyd yn Rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol? Manylwch ar eich barn.

<b>L</b>	<b>Cytundebau Fframwaith</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C38</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu ar gyfer cytundebau fframwaith a amlinellir yn Rheoliadau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C39</b>	A ydych yn credu y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol geisio cael amserlen hiraf arall ar gyfer fframwaith? Os felly, rhowch fanylion am yr hyn a fyddai, yn eich barn chi, yn amserlen briodol a pham?
<b>C40</b>	A ydych yn credu y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol geisio cael y cyfle i agor fframwaith ar adegau penodol er mwyn i rai newydd allu dod yn rhan o fframwaith?

<b>M</b>	<b>Dyfarniadau neu addasiadau brys</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C41</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu yn Rheoliad 14, dyfarniadau neu addasiadau brys?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>

<b>N</b>	<b>Rhoi'r gorau i gamau caffael neu ailadrodd y camau hynny</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C42</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu yn Rheoliad 15, rhoi'r gorau i gamau caffael neu ailadrodd y camau hynny?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>

<b>O</b>	<b>Eithriadau</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C43</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu yn PSR Rheoliadau 20, eithriadau?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
--	---

<b>P</b>	<b>Gofal Sylfaenol</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C44</b>	<p>I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gyd-fynd â'r dull gweithredu ar gyfer contractau gofal sylfaenol fel yr amlinellir yng nghanllawiau PSR arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno</li> <li>• Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C45</b>	<p>O ran caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, a oes gennych unrhyw farn neu bryderon ynghylch hepgor 'Gwasanaethau Meddygol Personol' (PMS) practisiau meddygon teulu o ganllawiau ar gyfer trefn gaffael newydd y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol? Rhowch esboniad.</p>
<b>C46</b>	<p>A oes enghreifftiau o gontractau gwasanaethau gofal sylfaenol sy'n cael eu caffael yng Nghymru ar hyn o bryd nad ydynt wedi'u diffinio yng nghanllawiau GIG Lloegr neu sy'n cael eu cofnodi uchod fel pwyntiau gwahanol? Os felly, nodwch y gwasanaethau hyn.</p>

<b>Q</b>	<b>Trefniadau pontio, cyflwyno a gweithredu</b>
	<b>Cwestiynau:</b>
<b>C47</b>	<p>I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol gael ei chefnogi drwy sefydlu pecynnau cymorth a sesiynau codi ymwybyddiaeth?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno'n gryf.</li> <li>• Cytuno</li> <li>• Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</li> <li>• Anghytuno Anghytuno'n gryf.</li> </ul> <p>Rhowch ragor o fanylion?</p>
<b>C48</b>	<p>O ran gweithredu trefn gaffael arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, a oes gennych chi unrhyw safbwyntiau neu bryderon am drefniadau pontio, cyflwyno ac amseru'r gweithredu? Rhowch ragor o fanylion am eich barn.</p>
<b>C49</b>	<p>Pryd ydych chi'n meddwl y dylai trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ddod i rym yn y dyfodol? Rhowch fanylion am eich barn.</p>
<b>C50</b>	<p>A oes gennych chi farn ynghylch a ddylai unrhyw drefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru geisio cyd-fynd â'r amserlenni i gyflwyno'r</p>

	newidiadau arfaethedig sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer caffael cyhoeddus ehangach o dan Ddeddf Caffael Llywodraeth y DU, ynteu gael eu cyflwyno ar adeg wahanol?
--	---

<b>R</b>	<b>Cwestiynau cyffredinol</b>
<b>Effeithiau ar adnoddau a chostau i sefydliadau ac i unigolion</b>	
<b>C51</b>	Rhowch fanylion unrhyw gynnydd/gostyngiad disgwylidig mewn adnoddau/costau rhedeg gweithredol ar gyfer eich sefydliad sy'n gysylltiedig â gweithredu trefn darparwyr gwasanaeth iechyd newydd yng Nghymru?
<b>C52</b>	Mae canllawiau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn sôn am y 'dirwedd darparwyr' <sup>31</sup> a'r disgwyliadau i ddatblygu ac i gynnal gwybodaeth ddigon manwl am ddarparwyr perthnasol. A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar sut y gellid cyflawni hyn yng Nghymru, pe baem yn dewis cydlynw â PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer yr elfen hon?
<b>C53</b>	Mae canllawiau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi disgwyliadau mewn perthynas â dethol darparwyr ac arferion da mewn perthynas â blaengynllunio 'awdurdod perthnasol' ac yn mapio'n glir y gweithgareddau masnachol disgwylidig yn y dyfodol. <sup>32</sup> Rhowch fanylion am eich barn am sut y gellid cyflawni hynny fel rhan o unrhyw drefn caffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol?
<b>Adolygu'r drefn newydd</b>	
<b>C54</b>	Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu gweithrediad y drefn newydd arfaethedig ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru o fewn cyfnod o bum mlynedd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. A oes gennych unrhyw farn ynghylch sut y dylid gwneud hynny?
<b>Effaith ar y Gymraeg</b>	
<b>C55</b>	Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y drefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar y Gymraeg? Rydym yn arbennig o awyddus i glywed am unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Os felly, sut gellir gwneud hyn?</li> <li>○ Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol? Os felly, sut gellir gwneud hyn?</li> </ul>
<b>C56</b>	Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid trefn gaffael newydd arfaethedig y gwasanaeth iechyd er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ iddi gael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu</li> <li>○ iddi liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?</li> </ul> <p>Manylwch ar eich barn.</p>

<sup>31</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime: draft statutory guidance](#), gweler yr adran 'Provider Landscape'

<sup>32</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime: draft statutory guidance](#), gweler yr adran 'Applying the regime, Planning'



<b>Unrhyw sylwadau eraill</b>	
<b>C57</b>	A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi ynghylch yr egwyddorion gweithredol ar gyfer gweithredu trefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd i ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon? Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, rhowch y manylion.
<b>C58</b>	Rhowch fanylion eich sefydliad. Ydych chi'n ymateb ar ran: <ul style="list-style-type: none"> <li>• GIG</li> <li>• Awdurdod Lleol</li> <li>• Y trydydd sector/sector gwirfoddol</li> <li>• Y sector preifat</li> <li>• Arall – rhowch fanylion.</li> </ul>
<b>C59</b>	Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, eu cyhoeddi fel rhan o grynodedb o'r ymatebion ar y rhyngwyd neu fel rhan o adroddiad sydd ar gael i'r cyhoedd.  Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

## **Atodiad A - Crynodeb o ymateb llywodraeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr: ymgynghoriad atodol**

### **Cefndir:**

Yn 2021, cynhaliodd GIG Lloegr ymarfer ymgynghori ar egwyddorion cyflwyno'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr (PSR) yn Lloegr<sup>33</sup>.

Ym mis Chwefror 2022, cynhaliodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymgynghoriad atodol ar fanylion gweithredol arfaethedig y PSR yn Lloegr. Cyhoeddodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei hymateb i'r ymarferiad ymgynghori hwn ym mis Gorffennaf 2023. Mae modd gweld copiâu o'r naill ddogfen a'r llall ar wefan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol<sup>34</sup>

Ceir trosolwg isod o ymgynghoriad atodol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chrynodeb o'i hymatebion i adborth y rhanddeiliaid.

Crynodeb yw hwn ac mae'n cael ei gynnwys dim ond i dynnu sylw at y prif faterion a godwyd gan rhanddeiliaid mewn ymateb i ymgynghoriad atodol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac i roi cyd-destun o'r rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar brosesau gweithredol PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr.

Ni ddylid trin y dehongliad o'r Rheoliadau PSR sydd yn y ddogfen ymgynghori hon fel datganiad awdurdodol o'r gyfraith. Gwaith y Llysoedd fydd dehongli Rheoliadau PSR yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Deddf Caffael Llywodraeth y DU. Y safbwyntiau a nodir yn y ddogfen hon felly yw ein dealltwriaeth gyfredol ni o sut y gallai'r Rheoliadau PSR a Deddf Caffael 2023 weithredu a dim ond i helpu rhanddeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad hwn y cânt eu cynnig. Dylai rhanddeiliaid gyfeirio at y fersiynau llawn a chyhoeddedig o Reoliadau PSR 2023 drafft<sup>35</sup>, y canllawiau statudol cysylltiedig<sup>36</sup> a Deddf Caffael 2023<sup>37</sup>, ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori hon.

## **Cyfundrefn Dethol Darparwyr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol: ymgynghoriad atodol ar fanylion y cynigion ar gyfer y rheoliadau - ymateb Llywodraeth y DU**

### **Cyd-destun:**

Agorodd ymgynghoriad atodol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y PSR ar 21 Chwefror 2022 a daeth i ben ar 28 Mawrth 2022. Cafwyd cyfanswm o 124 o ymatebion. Mae'r canrannau sy'n cyfeirio at ymateb yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sydd wedi'u cynnwys isod, yn ymwneud ag ymatebion a gafwyd drwy'r arolwg ar-lein.

<sup>33</sup> [NHS England » NHS Provider Selection Regime: Consultation on proposals](#)

<sup>34</sup> [Provider Selection Regime: supplementary consultation on the detail of proposals for regulations - government response - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

<sup>35</sup> [The Health Care Services \(Provider Selection Regime\) Regulations 2023 \(legislation.gov.uk\)](#)

<sup>36</sup> [NHS England » The Provider Selection Regime \(PSR\) draft statutory guidance](#)

<sup>37</sup> [Procurement Act 2023 \(legislation.gov.uk\)](#)

## **Adrannau 1 a 2 – Cynigion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer diffinio cwmpas y PSR yn Lloegr**

Roedd dogfen ymgynghori'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi ein cynigion ar gyfer cwmpas y PSR, gan ofyn am safbwyntiau ar rinweddau cynnwys rhestr arfaethedig o godau Geirfa Caffael Gyffredin (CPV) yn y rheoliadau i egluro cwmpas y gwasanaethau y gellir eu caffael o dan y PSR yn Lloegr. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â chynnig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynnwys codau CPV yn y rheoliadau, gan ystyried y byddai'n helpu i egluro pa wasanaethau sydd o fewn cwmpas y PSR a pha rai sydd y tu allan i'r cwmpas. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y codau a gynigiwyd yn eang ac felly y gellid eu dehongli'n wahanol ac y gallai hynny arwain at ddefnydd anghyson.

Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â chynnig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynnwys codau CPV mewn rheoliadau yn cyfeirio at enghreifftiau penodol o godau a oedd ar goll o'n rhestr arfaethedig, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chomisiynu iechyd y cyhoedd, gan eu bod yn credu bod y rhestr yn canolbwyntio gormod ar ofal aciwt, a bod gwasanaethau eraill fel y rheini a ddarperir yn y gymuned a/neu sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd (er enghraifft, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau; ymwelwyr iechyd; nyrsys ysgol; gwasanaethau iechyd rhywiol) ddim yn amlwg o fewn cwmpas y PSR.

Roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn croesawu'r gefnogaeth ac yn cydnabod y diffyg codau a fyddai'n berthnasol i wasanaethau sydd o fewn cwmpas y PSR ac felly'n cynnig bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau i ddiffinio cwmpas y PSR. Dywedodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd y bydd y rheoliadau'n ei gwneud yn glir na fydd cod CPV 85149000-5 (gwasanaethau fferyllol) yn ymestyn i fferyllfeydd cymunedol a drefnir o dan 'Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol a Fferyllol Lleol) 2013'.

Dywedodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol eto fod caffael 'nwyddau' y tu allan i gwmpas y PSR. Fodd bynnag, gellir trefnu contractau y mae'r prif bwnc yn ymwneud â darparu gwasanaeth gofal iechyd i unigolion (hynny yw, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth) ynghyd â 'nwyddau' o dan feini prawf penodol yn unol â'n cynigion ar gyfer 'caffael cymysg'.

Roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod ymatebion yn ymwneud â gwasanaethau heb god CPV penodol. Gan fod y CPV yn system ddosbarthu sy'n cael ei defnyddio a'i datblygu gan y Comisiwn Ewropeaidd, roedd yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod y bydd rhai gwasanaethau'n cael eu caffael ar gyfer y gwasanaeth iechyd nad ydynt yn cyd-fynd yn glir â chod penodol. Dywedodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol nad oes ganddi'r pwerau i greu codau newydd. Ymatebodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy ddweud y bydd rhagor o wybodaeth i helpu cyrff sy'n gwneud penderfyniadau i benderfynu a yw gwasanaeth o fewn cwmpas y PSR yn cael ei nodi mewn canllawiau, ochr yn ochr ag enghreifftiau o wasanaethau sydd o fewn y cwmpas.

### **Adran 3: Ymateb yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynigion ar gyfer caffael cymysg o dan y PSR yn Lloegr**

Roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod y bydd prosesau caffael weithiau'n cynnwys nifer o elfennau, rhai ohonynt o fewn cwmpas y PSR, ac eraill o fewn cwmpas rheoliadau caffael ehangach. Mae dogfen ymgynghori'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi ein cynigion ar gyfer caffael cymysg o dan y PSR, gan ofyn i ymatebwyr a oedd mathau eraill o wasanaethau (ar wahân i ofal cymdeithasol) a allai, o'u trefnu mewn un contract â gofal iechyd, hyrwyddo buddiannau gorau cleifion, y trethdalwr a'r boblogaeth ymhellach. Roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn gofyn am farn ar rinweddau defnyddio codau CPV i egluro cwmpas gwasanaethau gofal cymdeithasol y gellir eu trefnu gyda gofal iechyd fel rhan o gaffael cymysg (gan nodi y gellir trefnu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn aml ochr yn ochr â gofal iechyd fel rhan o gaffael cymysg). Cafodd rhestr arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o godau CPV at y diben hwn ei chynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Rhoddodd ymatebwyr enghreifftiau o wasanaethau lle mae gofal iechyd yn cael ei drefnu ochr yn ochr â darpariaeth arall o dan un contract gydag enghreifftiau sy'n ymwneud â chontractau sy'n cynnwys elfennau gofal iechyd a gofal cymdeithasol fel gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety, presgripsiynu cymdeithasol, gwasanaethau cludo cleifion, gwasanaethau cludo, gwasanaethau ac atebion TG a digidol, gan gynnwys teleofal ac ateb galwadau, a nwyddau. Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn dangos yr amrywiaeth o wasanaethau y gall cyrff gwneud penderfyniadau eu trefnu ochr yn ochr â gwasanaethau gofal iechyd mewn un contract.

Ystyriodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr ymatebion ac ailadroddodd y byddai iechyd cymunedol, camddefnyddio sylweddau ac iechyd rhywiol ac atgennedlol o fewn y cwmpas ac felly y gellir eu trefnu o dan y PSR mewn modd annibynnol. Croesawodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol enghreifftiau a roddwyd gan ymatebwyr o'r nifer o wasanaethau sy'n cyfuno elfennau gofal iechyd a gofal cymdeithasol fel gwasanaethau digartrefedd, gwasanaethau cysgu allan, gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a gwasanaethau adsefydlu. Roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod bod trefnu elfennau gofal iechyd a gofal cymdeithasol y gwasanaethau hyn gyda'i gilydd yn cefnogi darparu gofal integredig mewn ffordd sydd o fudd i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Nododd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yr enghreifftiau a roddodd ymatebwyr o brosesau caffael sy'n cyfuno gwasanaethau gofal iechyd â gwasanaethau (er enghraifft, gwasanaethau ac atebion TG a digidol). Roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod, pan mai prif bwnc y contract yw darparu gofal iechyd i unigolion, y gall caffael y gwasanaethau hyn ochr yn ochr â gofal iechyd hefyd ddarparu manteision sylweddol. Ymatebodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy ddatgan y bydd eu rheoliadau'n egluro y gellir defnyddio'r PSR i gaffael gwasanaethau gofal iechyd 'o fewn y cwmpas' ochr yn ochr ag unrhyw nwyddau a gwasanaethau sydd y tu allan i'r cwmpas. **Dim ond pan fo'r prif bwnc yn ymwneud â gofal iechyd y byddai hyn yn berthnasol.**

#### **Adran 4: Ymatebion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r cynigion ar gyfer diffinio 'newid sylweddol' o dan y PSR yn Lloegr**

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi datgan bod ymgynghoriad GIG Lloegr ar y PSR yn 2021<sup>38</sup> yn gefnogol i raddau helaeth i gyrrff sy'n gwneud penderfyniadau allu parhau â'r trefniadau presennol mewn rhai amgylchiadau. Roedd hyn yn cynnwys pan nad yw gwasanaeth yn newid a phan fernir bod y darparwr presennol yn gwneud gwaith da, fel nad oes gwerth cyffredinol mewn chwilio am ddarparwr arall.

Gofynnodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am farn ar rinweddau defnyddio trothwy cyfun sy'n cynnwys newid sefydlog yng ngwerth y contract (dros £500,000) a newid canrannol yng ngwerth y contract (25%) fel trothwy ar gyfer 'newid sylweddol.' Felly, ar ôl cyrraedd y ddau drothwy, ni all cyrrff sy'n gwneud penderfyniadau barhau gyda'r darparwr presennol o dan amgylchiadau gwneud penderfyniadau a rhaid iddynt ddewis darparwr naill ai drwy nodi'r darparwr mwyaf addas neu drwy gynnal ymarfer tendro cystadleuol.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi llunio rhestr o newidiadau a gynigiwyd na ddylid eu hystyried, ni waeth pa newid fyddai mewn gwerth sy'n deillio o hynny, ac ni waeth pryd y cânt eu gwneud. Gofynnodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am farn ymatebwyr ar y rhestr hon. Wrth ystyried a ddylai newid sylweddol olygu newid swm penodol (£) yng ngwerth y contract a newid canrannol yng ngwerth y contract, roedd 48% o'r ymatebwyr yn cytuno â chynnig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan ystyried y byddai dim ond cael un maen prawf yn arwain at ddefnyddio'r PSR mewn ffordd anghyson neu anghymesur, gan gredu y byddai'r cynnig ar gyfer 'newid sylweddol' yn sicrhau tryloywder.

Lle'r oedd ymatebwyr yn anghytuno â chynigion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar drothwyon ar gyfer 'newid sylweddol', eglurodd nifer fod y newid canrannol yn unig yn ddigonol. Roedd ymatebwyr eraill yn awgrymu bod cynigion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhy gul ac y dylid ystyried ffactorau ansoddol fel ansawdd gwasanaeth. Roedd rhai ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn teimlo bod y trothwy'n rhy isel ac yn awgrymu dull gweithredu mwy hyblyg, er enghraifft y dylai'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'newid sylweddol' ddibynnu ar faint y contract, gan gynyddu'r hyblygrwydd i gyrrff sy'n gwneud penderfyniadau drwy nodi, mewn canllawiau, beth sy'n 'newid sylweddol' fel dewis arall yn lle rheoliadau.

Ymatebodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy groesawu cefnogaeth gyffredinol yr ymatebwyr i'w chynnig y dylid diffinio 'newid sylweddol' fel newid ar y cyd o swm penodol (£) yng ngwerth y contract a chanran (%) o newid yng ngwerth y contract. Mae hyn yn golygu mai dim ond pan fydd y ddau faen prawf yn cael eu bodloni y byddai newid yn cael ei nodi. Roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod awgrymiadau eraill yr ymatebwyr ynghylch beth yw 'newid sylweddol', fel newidiadau yn ansawdd y gwasanaeth.

---

<sup>38</sup> [NHS England » NHS Provider Selection Regime: Consultation on proposals](#)

Dyweddod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddai newid i contract yn cael ei ystyried yn sylweddol petai'n newid natur y contract yn sylweddol; a phan fydd contract yn cael ei newid i ddarparu gwahanol wasanaethau, byddai hyn yn newid o bwys ac felly byddai'n cael ei ystyried yn 'newid sylweddol.'

Roedd ymatebwyr yn llai cefnogol i drothwy'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o £500,000, gan gyfeirio'n aml at bryderon bod y swm hwn yn rhy isel a byddai'n golygu mân newidiadau i contractau mawr, gan olygu y byddai'n rhaid dewis darparwr gan ddefnyddio'r PSR. Fodd bynnag, nododd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan i'r trothwy £500,000 pan oedd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â newid canrannol i benderfynu pryd mae contract yn 'newid yn sylweddol.'

Roedd ymatebion pellach i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch 'newid sylweddol' yn canolbwyntio ar gyd-fynd â throthwyon yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ar amrywiadau ac awgrymiadau y dylai trothwyon gael eu pennu yn ôl maint neu werth contractau, gyda hyblygrwydd i gyrff gwneud penderfyniadau gyfiawnhau pam nad yw rhai newidiadau'n 'sylweddol' er eu bod yn bodloni'r meini prawf. Nododd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod rhai ymatebwyr o'r farn y byddai trothwy o 50% yn gyson â PCR 2015 sydd ar hyn o bryd yn llywodraethu'r gwaith o drefnu gwasanaethau gofal iechyd, ac y byddai'r PSR yn ei ddisodli wrth lywodraethu'r gwaith o drefnu'r gwasanaethau hynny. Mae'r trothwy 50% yn PCR 2015 yn berthnasol i amrywiadau i contractau yn hytrach na 'newid sylweddol', oherwydd o dan PCR 2015, rhaid ail-dendro contractau bob amser ar ddiwedd cyfnod y contract. Nododd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol mai dim ond pan fydd amodau eraill yn cael eu bodloni y mae'r trothwy 50% yn berthnasol. O dan gynigion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd PSR yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gyrff sy'n gwneud penderfyniadau barhau â'r trefniadau presennol gyda'r darparwr presennol ar ddiwedd cyfnod y contract heb fynd i dendr. O'r herwydd, mae gofyn i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gael trothwy i ysgogi ystyried darparwyr newydd, i sicrhau bod cyrff gwneud penderfyniadau yn parhau i fod yn agored i ddatblygiadau yn y farchnad. Felly mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bwriadu parhau â'i throthwy o 25%.

### **Adran 5: Ymateb yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r cynigion ar gyfer amrywio'r contract a'r PSR yn Lloegr**

Roedd dogfen ymgynghori'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi rhestr o amrywiadau i contractau na ddylai gyfiawnhau ailweithredu'r PSR ac yn gofyn am farn ar restr arfaethedig o amrywiadau. Roedd ymatebwyr a oedd yn cytuno na ddylai'r rhestr o amrywiadau gyfiawnhau ailweithredu'r PSR, yn credu y byddai ailweithredu'r PSR mewn amgylchiadau o'r fath yn cynyddu'r baich ar gyrff gwneud penderfyniadau, ond roedd angen mwy o dryloywder. Awgrymodd rhai ymatebwyr i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y dylid ychwanegu at y rhestr arfaethedig er mwyn darparu mwy o eglurder neu fesurau diogelu ychwanegol fel cynnydd mewn costau sy'n cael ei fandadu'n genedlaethol, codiadau cyflog ac Yswiriant Gwladol yn cael eu heithrio yn unol â'r newidiadau yn y tariff,

newid canrannol yn nifer y cleifion na fyddai'n arwain at ailedrych ar y PSR er gwaethaf cyrraedd y trothwy canran a gwerth.

Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â rhestr arfaethedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn cyfeirio at bryderon ynghylch y trothwyon 25% a £500,000, gan gyfeirio hefyd at amgylchiadau mewn achos o drosglwyddo neu uno lle gallai diben a gwerth cymdeithasol sefydliad sy'n cymryd drosodd fod yn wahanol iawn i'r darparwr gwreiddiol.

Wrth ystyried a ddylai'r trothwy ar gyfer newid sylweddol fod yn swm penodol (£) yng ngwerth y contract, neu'n ganran o werth y contract, roedd yr ymatebwyr yn cytuno, gyda rhai ymatebwyr yn dweud bod angen hyblygrwydd. Dywedodd ymatebwyr a oedd yn anghytuno bod newid penodol yng ngwerth ariannol contract (£) yn amhriodol gan fod canran yn arwain at fwy o hyblygrwydd a pherthnasedd.

Wrth ystyried mesur newid yng ngwerth y contract, rhoddodd ymatebwyr i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol farn ar y trothwy canran. Gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymiadau eraill, er enghraifft ynghylch hyblygrwydd i gyrff sy'n gwneud penderfyniadau neu drothwyon gwahanol yn seiliedig ar werth contract hynny yw, graddfa symudol sy'n adlewyrchu gwerth contract oes cyffredinol.

Roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn croesawu cefnogaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'w rhestr arfaethedig o amrywiadau i gontractau na fyddai'n golygu bod angen ailddewis darparwr gan ddefnyddio'r PSR. Mae dogfen ymgynghori'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi, os yw'r naill neu'r llall o'r amodau (£ neu %) yn berthnasol mewn perthynas â'r newid cronus yng ngwerth oes y contract, ni fyddai'r contract wedi cael ei ystyried yn amrywiol iawn ac ni fyddai cyfiawnhad dros ailweithredu'r PSR.

Nododd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod ymatebwyr yn dymuno cael mwy o hyblygrwydd a disgresiwn ar gyfer cyrff sy'n gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, dywedodd yr Adran ei bod yn credu bod perygl i'r dull hwn o weithredu'r PSR gael ei ddefnyddio'n anghyson rhwng cyrff sy'n gwneud penderfyniadau gyda'r potensial i erydu dealltwriaeth gyffredin o ddarpariaethau'r PSR ac arwain at anghysondebau diangen yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu trefnu ledled Lloegr.

### **Adran 6: Ymatebion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i adborth rhanddeiliaid ar eu cynigion ar gyfer defnyddio'r PSR wrth sefydlu rhestrau o ddarparwyr i gynnig dewis i gleifion**

Mae dogfen ymgynghori'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi ein cynigion ar gyfer sut y dylai'r PSR fod yn berthnasol pan fydd cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn mynd ati i gynnig dewis i gleifion yn wirfoddol pan nad oes gan gleifion hawl gyfreithiol i ddewis darparwr. Yn yr amgylchiadau hyn, mae sut y gellir defnyddio'r PSR yn dibynnu ar a yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau yn ceisio cyfyngu ar nifer y darparwyr y gall cleifion ddewis ohonynt.

Pan fydd cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn penderfynu cynnig dewis o nifer cyfyngedig o ddarparwyr gwasanaethau i gleifion nad oes gan gleifion hawl gyfreithiol i ddewis ar eu cyfer, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnig bod yn rhaid iddynt ddefnyddio amgylchiadau gwneud penderfyniadau 2 neu 3 i ddewis y darparwr/darparwyr y gall cleifion ddewis ohonynt. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn datgan y bydd hyn yn sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau yn dryloyw ac yn gymesur, a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd gorau'r cleifion, y trethdalwr a'r boblogaeth.

### **Adran 7: Ymatebion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i adborth rhanddeiliaid ar ei chynigion ar gyfer gofynion tryloywder wrth drefnu gwasanaethau o dan y PSR**

Nod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw datgan mai nodau ei threfniadau tryloywder o dan y PSR yw sicrhau bod canlyniadau penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyhoeddus, a bod craffu digonol yn cael ei wneud i sicrhau bod y PSR yn cael ei ddilyn yn ddidwyll.

Roedd ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gofyn am safbwyntiau ar gynigion pellach ar gyfer y bwriad i ddyfarnu hysbysiad a chynigion manylach i gyrff gwneud penderfyniadau gyhoeddi crynodebau blynyddol yn amlinellu sut maent yn defnyddio'r PSR.

Roedd rhai ymatebwyr i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cefnogi ei chynigion o dan y PSR i gynnwys gofyniad i gyhoeddi manylion dyfarniadau a phenderfyniadau. Roedd rhai ymatebwyr o blaid tryloywder fel egwyddor ac fel ffordd o leihau'r tebygolrwydd o heriau cyfreithiol. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch y baich gweinyddol o gyhoeddi'r wybodaeth hon a'r ffaith y gallai fod o natur sensitif.

Rhoddodd ymatebwyr i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol safbwyntiau ar fesurau i gynnwys gwybodaeth yn yr hysbysiad ar sut i herio neu apelio yn erbyn y penderfyniad, gan awgrymu hefyd y gallai fod yn ddefnyddiol cyhoeddi gwybodaeth am ddarparwyr eraill a ystyriwyd gan y penderfynwr, yn ogystal ag ar brofion a thrafodaethau ynghylch y farchnad.

Gofynnodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ba raddau roedd yr ymatebwyr yn cytuno/anghytuno â'i chynigion ynghylch crynodebau blynyddol. Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion ar gyfer crynodebau blynyddol mewn ymgais i hyrwyddo atebolrwydd a thryloywder. Dywedodd yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno y byddai cynigion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dyblygu ymdrechion yn ddiangen.

Wrth ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol y byddai'r ymatebwyr yn awgrymu ei chynnwys yn y crynodebau, roedd yr ymatebion i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys awgrymiadau i ddarparu rhagor o fanylion am contractau unigol, nifer y contractau a ddyfarnwyd ym mhob amgylchiad bob blwyddyn, gwerth pob contract, hyd y contract, dull safonol o adrodd ar gyfer pob corff er mwyn gallu cymharu'n rhanbarthol.



Nododd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod rhai ymatebwyr wedi mynegi pryder y gallai ei chynigion arwain at ofyniad i gyhoeddi gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif. Ond, mae'n disgwyl na fydd cyrff gwneud penderfyniadau yn cyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol na gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif.

Roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod pryderon ymatebwyr ynghylch baich gweinyddol ei chynigion ar gyfer y bwriad i roi hysbysiad ac yn derbyn na ddylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gael eu cyfyngu o ran sut i gyflwyno sail resymegol sy'n adlewyrchu'n gywir eu dull o wneud penderfyniadau. Mewn ymateb, dywedodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei bod yn bwriadu i'r bwriad PSR gynnwys mesurau y bydd yr hysbysiad dyfarnu yn cynnwys datganiad yn egluro rhesymeg y corff gwneud penderfyniadau dros ddewis y darparwr o dan sylw, gan gyfeirio at y meini prawf allweddol perthnasol.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod cynigion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn arwain at ormod o faich gweinyddol. Mewn ymateb, dywedodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bydd y PSR yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cynhyrchu gwybodaeth lefel uchel a'r baich gweinyddol ar gyrrff sy'n gwneud penderfyniadau. Bydd cynnig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn sicrhau bod gwybodaeth lefel uchel yn cael ei chasglu yn y ffordd sydd leiaf beichus, gan gydnabod hefyd y bydd yr hysbysiadau y mae'n rhaid eu cyhoeddi o dan y PSR yn cynnwys rhagor o fanylion am drefniadau unigol. Nododd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd fod llawer o ymatebwyr yn cyfeirio at fanteision sylweddol crynodebau blynyddol ar gyfer cynyddu tryloywder cyhoeddus, atebolrwydd a hyder mewn penderfyniadau a wneir gan ddefnyddio'r PSR.

### **Adran 8: Ymateb yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i adborth rhanddeiliaid ar yr adolygiad annibynnol o benderfyniadau a wnaed o dan y PSR**

Nid oedd cwestiynau ymgynghori'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwneud yn benodol â chraffu annibynnol ar benderfyniadau a wnaed o dan y PSR, gan gynnwys hawliau i ddarparwyr sydd am herio cyrff gwneud penderfyniadau, gan fod y cynigion hyn wedi'u cynnwys yn ymgynghoriad blaenorol GIG Lloegr ar y PSR. Fodd bynnag, mewn ymateb i ymgynghoriad atodol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, darparodd rhai ymatebwyr farn ar ddigonolrwydd cynigion yr Adran ynghylch tryloywder i sicrhau llywodraethu da ac a fyddai'n rhaid i gorff gwneud penderfyniadau ei hun adolygu a dyfarnu ar ei benderfyniad pan gaiff ei herio gan ddarparwr, heb gynnwys corff annibynnol.

Mewn ymateb, roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod y gwerth posibl o gyflwyno mwy o annibyniaeth i'r adolygiad o benderfyniadau a wneir o dan y PSR ac yn cynnig sefydlu panel, sy'n cael ei gadeirio gan berson annibynnol, sy'n gallu edrych ar faterion sy'n ymwneud â'r rheoliadau PSR a rhoi cyngor arnynt. Bydd hyn yn helpu i sicrhau: bod prosesau caffael yn dryloyw, yn deg ac yn gymesur, gan alluogi pob darparwr i gystadlu am gontractau; ac nad yw darparwyr yn cael eu heithrio'n annheg rhag cynnig gwasanaethau i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

